


cwmpas

ColegauCymru
CollegesWales

# Dangos Gwerth Cymdeithasol Colegau Addysg Bellach yng Nghymru

Ebrill 2024

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Dangos Gwerth Cymdeithasol Colegau Addysg Bellach yng Nghymru

*“Mae gwerth cymdeithasol wrth galon popeth rydyn ni’n ei wneud.”*

*“creu etifeddiaeth barhaus, lle mae pob dysgwr, pob cymuned, a’r amgylchedd yn elwa o ymrwymiad rhyfeddol Addysg Bellach Cymru i lesiant cymdeithasol.”*

# Tabl Cynnwys

Dangos Gwerth Cymdeithasol Colegau Addysg Bellach yng Nghymru ..........................2

Archwilio Gwerth Cymdeithasol yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru: Crynodeb Gweithredol ..........................4

Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)? ..........................4

Nodau llesiant ..........................4

Rôl Sefydliadau Addysg Bellach wrth Hyrwyddo Llesiant Cymdeithasol yng Nghymru ..........................5

Rhagymadrodd ..........................7

Gwerth Cymdeithasol ..........................16

Canfyddiadau ..........................21

WBG1 - Cymru lewyrchus ..........................22

WBG2 - Cymru Gydnerth ..........................30

WBG3 - Cymru Iachach ..........................37

WBG4 - Cymru sy'n Fwy Cyfartal ..........................41

WBG5 – Cymru o Gymunedau Cydlynus ..........................51

WBG6 - Cymru â Diwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu ..........................56

WBG7 - Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang ..........................63

Casgliadau ac argymhellion ..........................73

# Archwilio Gwerth Cymdeithasol yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru: Crynodeb Gweithredol

Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar archwilio gwerth cymdeithasol o fewn y sector Addysg Bellach (AB) yng Nghymru, pwnc sydd heb ei archwilio i raddau helaeth hyd yn hyn. Mae'n ymchwilio i ddeall sut mae sefydliadau AB yng Nghymru yn cyfrannu at les cymdeithasol y tu hwnt i'w rolau addysgol traddodiadol. Trwy archwilio sbardunau strategol, cynnal cyfweliadau, ac adolygu llenyddiaeth sy'n bodoli, nod yr astudiaeth yw taflu goleuni ar y ffyrdd amlochrog y mae sefydliadau AB yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol. Mae gwerth cymdeithasol, fel y'i deellir yng nghyd-destun yr ymchwil hwn, yn cwmpasu'r effeithiau cadarnhaol ehangach y mae sefydliadau AB yn eu cael ar unigolion, cymunedau, a chymdeithas yn gyffredinol.

Nod yr ymchwil yw tynnu sylw at y cysylltiad cynhenid rhwng sefydliadau AB a llesiant cymdeithasol, gan amlygu rôl y sector fel catalydd ar gyfer newid cadarnhaol yng Nghymru. Trwy archwiliad manwl o werth cymdeithasol, mae'r astudiaeth yn ceisio darparu camau y gellir eu gweithredu a allai lywio penderfyniadau strategol a gwella effeithiolrwydd cyffredinol sefydliadau AB wrth gyfrannu at wella cymdeithas.

## Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant.

## Nodau llesiant

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

*Ffynhonnell: [https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html](https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html)*

## Rôl Sefydliadau Addysg Bellach wrth Hyrwyddo Llesiant Cymdeithasol yng Nghymru

Mae colegau AB yn hanfodol i hyrwyddo llesiant cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig o ran hybu Cymru lewyrchus (**WBG1**). Maent yn gweithredu fel sefydliadau angori, gan siapio'r economi leol a rhanbarthol. Mae eu ffocws ar ddatblygu sgiliau, partneriaethau cydweithredol gyda busnesau, a rhaglenni prentisiaeth yn dangos eu hymrwymiad i feithrin gweithlu medrus a sbarduno twf economaidd.

Caiff Cymru gydnerth (**WBG2**) ei chefnogi gan ymdrechion sefydliadau AB. Trwy arfogi unigolion â sgiliau hanfodol, cofleidio arferion cynaliadwy, a meithrin arloesedd, mae colegau'n cyfrannu at gryfder cyffredinol y gymdeithas yng Nghymru a'i gallu i addasu.

Mae Cymru iachach (**WBG3**) yn cael ei meithrin trwy fentrau colegau AB sy'n blaenoriaethu lles corfforol a meddyliol. Mae cymorth tuag at iechyd meddwl a lles wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl COVID. Trwy integreiddio llesiant i leoliadau addysgol, hyrwyddo ymddygiadau iach, a darparu systemau cymorth cadarn, mae colegau'n chwarae rhan hanfodol wrth feithrin ffyrdd o fyw a chymunedau iachach.

Mae colegau AB yn cyfrannu'n weithredol at sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal (**WBG4**). Trwy gynlluniau cydraddoldeb strategol, cynigion dysgu cynhwysol, a chymorth i grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, mae colegau'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn lleihau gwahaniaethau cymdeithasol, gan feithrin cymdeithas fwy cynhwysol.

Mae sefydliadau Addysg Bellach Cymru yn gweithredu fel canolbwyntiau deinamig sy'n cyfrannu at Gymru o gymunedau cydlynus (**WBG5**). Trwy bartneriaethau, ymgysylltu â'r gymuned, ac arferion cynhwysol, mae colegau'n chwarae rhan drawsnewidiol wrth ddatblygu cymunedau cryfach, mwy unedig.

Caiff Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (**WBG6**) ei hyrwyddo a'i dathlu gan golegau AB. Trwy gynnig gweithgareddau diwylliannol amrywiol, cefnogi dysgu trwy'r Gymraeg, a meithrin diwydiannau creadigol, mae colegau'n cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfoethog yn ddiwylliannol ac yn fwy amrywiol yn ieithyddol.

Mae colegau AB yn cyfrannu at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (**WBG7**) trwy gynaliadwyedd amgylcheddol, ymdrechion rhyngwladoli, a hyrwyddo sgiliau gwyrdd. Nod eu mentrau yw ymdrin â heriau amgylcheddol, ehangu dyheadau dysgwyr, a meithrin cydweithredu rhyngwladol. Drwy'r ymdrechion hyn, mae'r sector AB yng Nghymru yn chwarae rhan ganolog wrth siapio cymdeithas sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

## Argymhellion

### 1. Cysoni Gwerth Cymdeithasol â Newidiadau Deddfwriaethol trwy Gryfhau Eiriolaeth Allanol dros Werth Cymdeithasol mewn AB

- Integreiddio ag Amcanion Strategol CTER: Cysoni mentrau gwerth cymdeithasol yn y dyfodol
- Cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA)
- Gweithredu'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol
- Addasu i'r Genhadaeth Economaidd Ddiwygiedig

### 2. Cryfhau Arweinyddiaeth ColegauCymru mewn Eiriolaeth Gwerth Cymdeithasol rhyng-AB

Gan gynnwys:

- Rhannu gwybodaeth trwy rwydwaith 'cymuned ymarfer' gwerth cymdeithasol
- Codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrch Gyfathrebu

### 3. Sefydlu Dull Ffurfiol o Adrodd ar Werth Cymdeithasol

Rydym yn awgrymu y byddai'r broses hon yn cynnwys:

- Nodi canlyniadau a dangosyddion allweddol
- Olrhain cynnydd
- Astudiaethau achos ansoddol parhaus
- Adroddiadau blynyddol ar werth cymdeithasol

## Casgliad

Mae archwilio gwerth cymdeithasol yn y sector AB yn datgelu ei gyfraniadau amlochrog i lesiant cymdeithasol yng Nghymru. Nod yr argymhellion yw gwreiddio a chofleidio gwerth cymdeithasol ymhellach yn y sector, gan ganolbwyntio ar gysoni deddfwriaethol, eiriolaeth dros arweinyddiaeth, cydweithredu mewnol, a dulliau adrodd ffurfiol. Drwy roi'r argymhellion hyn ar waith, gall y sector AB wneud y mwyaf o'i gyfraniadau cymdeithasol a gosod cynsail trawsnewidiol ar gyfer rôl addysg wrth ysgogi newid cadarnhaol yng Nghymru.

## Rhagymadrodd

Comisiynwyd Cwmpas a'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) gan GolegauCymru i gynnal ymchwil a fyddai'n dechrau dangos gwerth cymdeithasol y sector Addysg Bellach (AB) yng Nghymru.

Pwrpas yr ymchwil hwn yw darparu asesiad sylfaenol o sut mae'r Sector AB, yng Nghymru, yn cyflawni gwerth cymdeithasol.

Fel sefydliadau angori, mae colegau AB yn gwneud cyfraniad sylweddol i'w heconomïau a'u cymunedau lleol. Nod yr ymchwil hwn yw datblygu'r ddealltwriaeth gyfredol o'r gwerth cymdeithasol sy'n cael ei ddarparu a bydd hefyd yn darparu argymhellion ar sut y gall y sector ymgorffori a chofleidio gwerth cymdeithasol ymhellach, o ran ei ddealltwriaeth o werth cymdeithasol, sut y gellir cynhyrchu gwerth cymdeithasol drwy sbardunau strategol y sector, y data y mae colegau unigol a ColegauCymru yn ei gasglu a data effaith ansoddol sy'n cael ei gasglu.

Yn 2017, cyhoeddodd ColegauCymru adroddiad Dangos Gwerth Economaidd Colegau AB yng Nghymru. Dangosodd canlyniadau'r astudiaeth fod colegau AB yng Nghymru yn creu manteision cadarnhaol sylweddol i'w prif grwpiau rhanddeiliaid: dysgwyr, cymdeithas, trethdalwyr, a'r gymuned fusnes leol. Defnyddiodd yr adroddiad ddull deublyg a oedd yn cynnwys dadansoddiad o fuddsoddiad a dadansoddiad o effaith economaidd rhanbarthol, i gyfrifo'r buddion i bob un o'r grwpiau hyn. Ond mae ColegauCymru yn cydnabod bod y dirwedd gymdeithasol, economaidd a gwleidyddol wedi newid yn sylweddol ers 2017, ac y bydd yr ymchwil hwn, sy'n archwilio gwerth cymdeithasol, yn galluogi'r sector i ddangos tystiolaeth o'i effaith ehangach, ac i egluro ei fanteision i ddysgwyr, staff, busnesau a chymunedau lleol.

Mae Colegau AB yng Nghymru wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau lleol ers amser maith, ac maent yn falch o weithio gyda phobl, gwasanaethau cyhoeddus a diwydiant. Mae'r colegau hyn yn cael effaith ddofn ac eang, trwy eu campysau, eu gweithlu a'u gallu i gaffael ar gymunedau lleol, datblygu sgiliau, cysylltiadau â diwydiant, a rolau arweinyddiaeth a gafodd effaith sylweddol yn eu hardaloedd lleol a thu hwnt.

### Y Sector AB yng Nghymru

#### Trosolwg

Ystyrir bod AB yn cwmpasu unrhyw addysg ôl-orfodol nad yw'n Addysg Uwch (AU). Mae dysgwyr AB yn astudio tuag at gymwysterau technegol a galwedigaethol, fel NVQ a BTEC, yn ogystal â chymwysterau cyffredinol, fel Safon Uwch. Mae'r strwythur AB hwn yn union yr un fath â'r system yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yn debyg i'r un yn yr Alban (Archwiliad Cymru 2021).

Mae’r Colegau AB yng Nghymru wedi’u dosbarthu fel sefydliadau dielw sy’n gwasanaethu aelwydydd (NPISH), sy’n golygu eu bod yn gyrff corfforaethol annibynnol sy’n ymwneud yn bennaf â darparu gwasanaethau i unigolion a’r gymuned yn gyffredinol. Gan fod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu am ddim neu am brisiau nad ydynt yn arwyddocaol yn economaidd, maent yn sefyll ar wahân i asiantaethau'r llywodraeth neu awdurdodau lleol ac nid ydynt yn cael eu dosbarthu fel busnes. Ar hyn o bryd mae tri ar ddeg o golegau AB yng Nghymru. Mae’r mwyafrif yn elusennau cofrestredig; ond mae llawer o agweddau ar y dull o’u gweithredu yn amodol ar reoleiddio gan y llywodraeth ac maent yn cael eu cefnogi gan arian cyhoeddus.

### Cyllid y sector

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu’r rhan fwyaf o gostau AB, drwy grantiau i golegau ar gyfer darparu rhaglenni dysgu i fyfyrwyr cymwys, yn ogystal â grantiau ar gyfer dysgu gan oedolion a thaliadau i gontractwyr sy’n gweinyddu prentisiaethau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu rhaglenni sydd wedi’u cynllunio i helpu pobl i ddod i mewn i’r farchnad lafur, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru ac ymyriadau i helpu’r rheini sydd ymhellach o’r farchnad lafur, fel y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc 14 i 24 oed. Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer AB wedi’i rannu rhwng gwahanol ffrydiau ariannu. Mae’r rhain yn cynnwys cyllid craidd ar gyfer colegau AB a’r chweched dosbarth mewn ysgolion, sy’n gysylltiedig â niferoedd dysgwyr ac sydd wedi aros yn weddol sefydlog ers 2016/17.

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol yn 2020-21 oherwydd pandemig COVID-19. Rhwng 2011/12 a 2016/17, gostyngodd y cyllid refeniw craidd ar gyfer colegau AB 13%, o ganlyniad yn gyfan gwbl i’r gostyngiadau yn y cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser. Mae gwerth cyffredinol cyllid craidd mewn termau real ar gyfer colegau AB wedi aros yn weddol sefydlog ers hynny. O 2020/21 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru yn darparu tua £5 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol ar gyfer oedolion sy’n dysgu yn y gymuned a thua £120 miliwn y flwyddyn i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith.

Nid oes un ddogfen sengl sy'n nodi strategaeth fanwl Llywodraeth Cymru ar addysg a sgiliau ôl-orfodol. Mae dull strategol Llywodraeth Cymru wedi ymddangos o amrywiaeth o adolygiadau ac astudiaethau ac mae'n adlewyrchu cyfyngiadau ariannol a datblygiadau polisi ar lefel y DU. Mae’n rhan o gyd-destun ehangach diwygio addysg orfodol cyn 16 oed. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ceisio integreiddio ei dull gweithredu ag agendâu polisi ehangach ar ddatblygu economaidd a chydraddoldeb o dan fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae’n werth nodi bod ColegauCymru yn galw am greu Strategaeth Genedlaethol Addysg Alwedigaethol a Hyfforddiant (VET).

Nod eang Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo a gwella llwybrau academaidd a galwedigaethol i addysg uwch ac addysg bellach er mwyn rhoi i ddysgwyr y sgiliau sydd

eu hangen arnynt ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio cydlynu ymchwil ac arloesi i alluogi sefydliadau i gael effeithiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Yn dilyn argymhellion Adolygiad Hazelkorn yn 2016, mae Llywodraeth Cymru yn creu corff cyhoeddus annibynnol, newydd i weinyddu'r system addysg a hyfforddiant ôl-16 gyfan, gan gynnwys AU, AB a hyfforddiant galwedigaethol. Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yn ariannu, yn rheoleiddio ac yn cydgysylltu'r sector ac yn ysgwyddo cyfrifoldebau perthnasol CCAUC (HEFCW) a Llywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn yn swyddogaethol annibynnol, ond bydd yn gweithredu ar sail cynllun strategol pum mlynedd a gymeradwyir gan Weinidogion. Mae staff strategol wedi'u penodi i CTER a bydd y Comisiwn yn ymgymryd â'i ddyletswyddau ym mis Awst 2023.

Mewn cyhoeddiad diweddar yn ymwneud â Blaenoriaethau Strategol CTER, mae ColegauCymru yn esbonio:

> *"Mae sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth. Mae'n nodi cyflwyno un o'r diwygiadau mwyaf arwyddocaol i bensaernïaeth ein system addysg ers datganoli. Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU i arloesi gydag un awdurdod rheoleiddio, goruchwylio a chydlynu cyffredinol ar gyfer addysg drydyddol".*
>
> *"Mae'n dod ar adeg pan fo cyfraniad addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i ddyfodol ein gwlad yn bwysicach nag erioed..................Yn fyr, mae pob llwybr at Gymru gryfach, decach, fwy gwyrdd a dwyieithog yn gofyn am sector addysg bellach wydn sy'n perfformio'n dda.*

Bydd dyletswyddau strategol CTER hefyd yn gweithredu fel sbardun ar gyfer y sector AB. Mae'n ymddangos bod yr 11 dyletswydd strategol hefyd yn cyd-fynd yn dda â Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.




Yn ogystal â ffurfio CTER, mae nifer o sbardunau strategol eraill a fydd yn dylanwadu ar y sector yn y dyfodol agos. Mae'r sbardunau hyn hefyd yn llywio rôl a blaenoriaethau ColegauCymru. Mae Cynllun Gweithredol Drafft ColegauCymru, dyddiedig Ebrill 2023 - Rhagfyr 24 yn amlygu'r meysydd canlynol:

- Dirywiad cyllid cyhoeddus: Ers mis Medi 2022 mae cyflwr cyllid cyhoeddus wedi gwaethygu'n sylweddol, a bydd colegau'n wynebu cyfres o setliadau ariannu anodd rhwng nawr a diwedd tymor presennol y Senedd. Ochr yn ochr â'r pwysau ehangach hyn ar y setliad cyllid blynyddol, mae yna bwysau ychwanegol yn deillio o gostau byw (o ran pwysau ar gyflogau a chostau uniongyrchol eraill fel ynni a deunyddiau) a'r diffyg cyllid digonol i wneud iawn am golli arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Diwygio cymwysterau galwedigaethol: Mae diwygiadau sylweddol yn cael eu gwneud i gymwysterau galwedigaethol, o ran diwygiadau i gymwysterau'r sector a hefyd drwy'r adolygiad o'r system cymwysterau galwedigaethol ehangach.
- Adferiad ôl-Covid: er nad oes unrhyw gyfyngiadau iechyd cyhoeddus penodol ar waith, mae'r pandemig yn parhau i gael effaith ar y sector AB. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr effaith barhaus ar iechyd meddwl a lles myfyrwyr, rheoli'r pontio i weithio hybrid ac i ddysgu cyfunol, a rheoli'r effaith ar recriwtio staff.
- Sbardunau polisi ehangach: mae yna lawer o bwysau a sbardunau newydd o ran polisïau a fydd yn effeithio ar y sector. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cymru wrth-hiliol, gofynion deddfwriaethol posibl drwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael, gwella llwybrau cyfrwng Cymraeg mewn AB, a'r ymrwymiad i Genedl Ail Gyfle. Yn ychwanegol at hyn mae ymrwymiad y sector i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Hefyd ym mis Tachwedd 2023, adolygodd Llywodraeth Cymru eu cenhadaeth economaidd, gan nodi pedair blaenoriaeth a fydd yn llywio sut y gall Cymru ymateb i ansicrwydd a manteisio ar gyfleoedd newydd. Rhestrir y blaenoriaethau hyn isod, ynghyd â sut y maent yn berthnasol i'r sector AB:

- **Trawsnewid Cyfiawn a Ffyniant Gwyrdd:** Nod y llywodraeth yw gwireddu cyfleoedd economaidd enfawr Sero Net ac ymgysylltu â busnesau a phobl i symud tuag at drawsnewidiad cyfiawn. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â heriau newid hinsawdd a thrawsnewid i economi werdd fwy cynaliadwy.
    - Gall y sector addysg bellach chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer economi werdd. Gallai hyn olygu datblygu cwricwla newydd sy'n canolbwyntio ar arferion a thechnolegau cynaliadwy.
- **Llwyfan i Bobl Ifanc, Gwaith Teg, Sgiliau, a Llwyddiant:** Mae'r llywodraeth yn cefnogi pobl ifanc i gyflawni dyfodol uchelgeisiol yng Nghymru drwy roi blaenoriaeth i'w sgiliau a'u creadigrwydd. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â chyflogadwyedd pobl ifanc ac oedolion sy'n ymuno â'r farchnad swyddi. Mae'r sector addysg bellach yn allweddol wrth arfogi pobl ifanc â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig sgiliau academaidd ond hefyd sgiliau galwedigaethol a thechnegol y mae galw cynyddol amdanynt yn y farchnad swyddi.
- **Partneriaethau Cryfach ar gyfer Rhanbarthau Cryfach a'r Economi Bob Dydd:** Mae'r llywodraeth yn bwriadu gweithio gyda rhanbarthau i gytuno ar set lai o flaenoriaethau ar gyfer twf, swyddi lleol, a buddsoddiad mawr. Mae hyn yn cynnwys cydweithio newydd i hybu'r achos dros fuddsoddiad y DU mewn prosiectau sy'n cefnogi swyddi teg, undebol mewn meysydd gan gynnwys Niwclear, Gwynt ar y Môr, a Thechnoleg. Gall y sector addysg bellach ffurfio partneriaethau gyda busnesau a diwydiannau lleol i sicrhau bod y sgiliau a addysgir yn cyd-fynd ag anghenion yr economi leol.
- **Buddsoddi ar gyfer Twf:** Bydd y llywodraeth yn canolbwyntio ar gryfderau cydnabyddedig i hybu buddsoddiad a thwf sy'n rhoi bri ar waith teg a gweithredu gan roi sylw i'r hyn fydd yn digwydd yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys targedu buddsoddiad newydd mewn tirwedd ôl-UE, cefnogi masnacheiddio, ymchwil a datblygu, ac entrepreneuriaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn gweld y sector addysg bellach fel partner cyflawni hanfodol ar gyfer uchelgeisiau'r Strategaeth Cyflogadwyedd newydd[1]. Mae hyn yn golygu sicrhau mynediad at y sgiliau cywir ar yr amser cywir ac ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i anghenion y farchnad lafur.

### Rôl ColegauCymru o fewn y sector

Mae ColegauCymru yn elusen addysg sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus addysg bellach yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn credu bod gan bob dysgwr yr hawl i addysg o'r radd

[1] https://www.gov.wales/vision-further-education

flaenaf, a ddarperir mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac o fewn sector sy'n cefnogi'r gymuned ehangach, cyflogwyr a'r economi.

Mae ColegauCymru yn gyfrifol am gynnull y Fforwm Penaethiaid Addysg Bellach, sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr addysg bellach (AB). Gweithia'r sefydliad yn agos gyda Llywodraeth Cymru, ei hasiantaethau, a rhanddeiliaid eraill, i helpu i siapio'r polisïau sy'n effeithio ar y sector AB, eu dysgwyr a'u staff.

## Methodoleg

Dyma'r darn cyntaf o ymchwil sydd wedi ceisio crynhoi ac amlygu gwerth cymdeithasol y sector AB yng Nghymru. Mae Cwmpas a CLES wedi gweithio'n agos gyda ColegauCymru a'r sector AB ehangach ac rydym wedi defnyddio dull methodolegol iteraidd a amlinellir isod.

### Sefydlu'r sbardunau strategol presennol ar gyfer y sector AB

Rhan o ddiben yr ymchwil hwn yw tynnu sylw at y sbardunau strategol o fewn y sector AB sy'n cyflawni gwerth cymdeithasol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Adolygodd yr ymchwilwyr ddogfennau strategol allweddol, yn ymwneud â'r sector AB gan:

- Lywodraeth Cymru, gan gynnwys dogfennau sy'n ymwneud â CTER, deddfwriaeth a pholisi cyfredol, gan gynnwys y Genhadaeth Economaidd wedi'i diweddaru, deddfwriaeth Partneriaethau Cymdeithasol ac areithiau Gweinidogol
- ColegauCymru, megis y cynllun gweithredu cyfredol a chyhoeddiadau blaenorol
- Sefydliadau AB unigol, er enghraifft Datganiadau Gweledigaeth a Chenhadaeth a chynlluniau strategol.

### Beth yw gwerth cymdeithasol yn y sector AB yng Nghymru

Er mwyn dechrau deall pa werth cymdeithasol sy'n cael ei gynhyrchu gan y sector AB yng Nghymru a sut mae hyn yn cael ei ddylanwadu gan sbardunau strategol, fe wnaeth Cwmpas a CLES:

- Adolygiad llenyddiaeth ehangach o werth cymdeithasol
- Adolygiad o werth cymdeithasol o fewn cyd-destun Cymreig
- Dadansoddiad o werth cymdeithasol o fewn y sector addysg
- Archwiliad o werth cymdeithasol yn y sector AB yng Nghymru, gan gynnwys sut mae ColegauCymru a'r colegau AB yn deall y term a sut mae'r term yn cael ei ddefnyddio o fewn y sector ar hyn o bryd.

### Cyfweliadau cwmpasu

Yn dilyn trafodaethau gyda thîm ColegauCymru, cynhaliodd yr ymchwilwyr gyfweliadau cwmpasu gyda Phenaethiaid o 3 o'r colegau AB. Pwrpas y cyfweliadau oedd casglu eu

barn am werth cymdeithasol a sut mae'r term yn cael ei ddefnyddio o fewn y sector, trafod y data meintiol ac ansoddol yn ymwneud â gwerth cymdeithasol a oedd ar gael ar hyn o bryd a gofyn eu barn am y dull methodolegol arfaethedig. Helpodd y cyfweliadau ni hefyd i ddatblygu fframwaith gwerth cymdeithasol ddechreuol, a fyddai'n gweithredu fel sail ar gyfer casglu data ansoddol a meintiol.

Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru, o Adran Sgiliau Addysg Uwch, Addysg a Dysgu Gydol Oes (SHELL) i gael eu barn am y sbardunau strategol o fewn y sector, eu canfyddiad o'r gwerth cymdeithasol sy'n cael ei ddarparu gan y sector ac i siapio'r fframwaith gwerth cymdeithasol a oedd wedi'i datblygu ymhellach.

### Gweithdy

Cynhaliwyd gweithdy ar-lein gyda Phenaethiaid colegau AB a/neu staff Uwch a staff ColegauCymru, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus. Roedd y gweithdy'n caniatáu i'r tîm ymchwil:

- Hwyluso dadl ehangach yn ymwneud â 'Beth yw gwerth cymdeithasol yn y sector AB?'
- Amlygu sbardunau strategol gwerth cymdeithasol ar gyfer y sector yn awr ac yn y dyfodol
- Trafod y data ansoddol a meintiol sydd ar gael
- Mireinio'r fframwaith gwerth cymdeithasol ymhellach

### Y Fframwaith Gwerth Cymdeithasol

Yn dilyn y gweithdy ar-lein, diwygiodd yr ymchwilwyr y fframwaith gwerth cymdeithasol. Roedd y fframwaith yn sail i'r broses casglu data ehangach. Mae copi o'r fframwaith gwerth cymdeithasol a ddatblygwyd i'w weld isod:

| Data Point | Quantitative/Qualitative/Both | Source |
|---|---|---|
| Benefit Measures: Social & Economic Value | | |
| (WG1) A prosperous Wales | | |
| How many students, what they study | Quantitative | Data request to colleges |
| Qualifications achieved/educational outcomes | Quantitative | Data request to colleges |
| Graduate journeys - work placements during study, onward journeys to FE/HE/work | Quantitative | Data request to colleges |
| (WG2) A resilient Wales | | |
| Employee data - total no. jobs, salary bands, resident location, total spend on salaries | Quantitative | Data request to colleges |
| Procurement data - all spending with suppliers, supplier details including category/sector/location | Quantitative | Data request to colleges |
| Relationships with local businesses | Both | Data request to colleges & case studies/interviews |
| (WG3) A healthier Wales | | |
| Walking/cycling initiatives | Qualitative | Case studies/interviews |
| Local/healthy food initiatives | Qualitative | Case studies/interviews |
| Health and wellbeing support for staff | Qualitative | Case studies/interviews |
| Health and wellbeing support for students | Qualitative | Case studies/interviews |
| (WG4) A more equal Wales | | |
| Demographics (protected characteristics, neighbourhoods) of students and what they study | Quantitative | Data request to colleges |
| Social mobility data | Quantitative | Data request to colleges |
| Targetted programmes for unemployed residents | Both | Data request to colleges & case studies/interviews |
| (WG5) A Wales of more cohesive communities | | |
| Community use of college facilities | Qualitative | Case studies/interviews |
| College use of community spaces/provision delivered in the community | Both | Data request to colleges & case studies/interviews |
| Programmes supporting migrants and refugees | Both | Data request to colleges & case studies/interviews |
| (WG6) A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language | | |
| Welsh language activity - no. students accessing programmes/modules | Quantitative | Data request to colleges & case studies/interviews |
| Arts/culture events hosted | Quantitative | Data request to colleges & case studies/interviews |
| (WG7) A globally responsible Wales | | |
| Emissions data | Quantitative | Data request to colleges & case studies/interviews |
| Sustainability skills - no. students accessing programmes/modules | Quantitative | Data request to colleges & case studies/interviews |
| Positive environmental impact data - e.g. tree planting/biodiversity projects | Both | Data request to colleges & case studies/interviews |
| International partnerships - no. students accessing programmes (i.e. Turing Scheme) | Both | Data request to colleges & case studies/interviews |
| Cost Measures: Investment | | |
| Total value of annual income streams, including grants and other inward investment/revenue secured | Quantitative | Welsh government to provide |

## Casglu data ehangach

Yr hyn a ddilynodd oedd ymarferiad casglu data - yn gyntaf o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein, data Llywodraeth Cymru a cholegau unigol (megis adroddiadau ariannol a chyfrifon), holi cysylltiadau o fewn Llywodraeth Cymru i gael setiau eraill o wybodaeth ac yn olaf, cais am ddata i bob coleg am y wybodaeth nad oedd yn cael ei chadw'n ganolog.

Cwblhawyd cyfweliadau unigol gyda'r Penaethiaid a/neu Staff Uwch o'r 10 sefydliad AB arall. Holwyd y cyfweleion am y gwerth cymdeithasol yr oedd y coleg yn ei gyflawni yn erbyn pob un o'r 7 Nod Llesiant. Roeddem hefyd yn gallu trafod y data a oedd gan bob sefydliad ac unrhyw brosiectau/astudiaethau achos y gellid eu defnyddio i amlygu gwerth cymdeithasol.

Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda staff o GolegauCymru ac roedd y rhain yn cynnwys y rheolwyr prosiect ar gyfer gwaith Ewropeaidd a Rhyngwladol ac Iechyd a Lles.

Ar ôl cwblhau'r cyfweliadau anfonwyd ceisiadau unigol am ddata meintiol at bob un o'r colegau AB.

Roedd rhai colegau'n gallu darparu ystod eang o ddata, ond roedd eraill yn ei chael hi'n anodd oherwydd amserlenni cymharol fyr y prosiect, ac ehangder y wybodaeth y gofynnwyd amdani (yn enwedig gan na ofynnwyd am y set hon o wybodaeth a metrigau o'r blaen). Felly roedd yn heriol casglu data cyson ar draws yr holl golegau i allu cymharu a chrynhoi yn ystyrlon. Felly mae gan yr astudiaeth ganlynol i werth cymdeithasol y sector

AB lai o fesurau economaidd traddodiadol ac mae’n dibynnu mwy ar wybodaeth o astudiaethau achos i gysylltu â'r sbardunau strategol ac effaith ehangach y sector.

Roedd dadansoddi'r data yn ein galluogi i ddewis astudiaethau achos enghreifftiol a fyddai'n rhoi cipolwg ar yr amrywiaeth eang o weithgareddau gwerth cymdeithasol sy'n cael eu cyflawni gan bob sefydliad. Fe wnaethom hefyd geisio sicrhau bod pob un o'r colegau yn cael eu cynrychioli'n deg yn yr adroddiad terfynol.

Arweiniodd y cais am wybodaeth am astudiaethau achos hefyd at nifer o gyfweliadau eilaidd gyda staff a oedd wedi arwain/yn ymwneud â’r astudiaethau achos/prosiectau a ddewiswyd.

Yn ogystal â’r uchod, buom hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda thîm ColegauCymru, i roi gwybod iddynt am y cynnydd ac ail-lunio’r briff gwreiddiol.

# Gwerth Cymdeithasol

### Beth yw gwerth cymdeithasol?

Mae ystod sylweddol o waith academaidd sy'n bodoli wedi ceisio meintioli 'gwerth cymdeithasol', fodd bynnag mae llawer o'r llenyddiaeth yn diffinio 'gwerth cymdeithasol' mewn ffordd eang ac annelwig (IPPR Yr Alban, 2023). Amlygwyd yr ehangder hwn mewn ymchwil gan y Cyngor Busnes Gwyrdd (2021) a restrodd 24 o ddiffiniadau sefydledig o werth cymdeithasol sydd o gwmpas, a daeth i'r casgliad bod gwerth cymdeithasol yn gysyniad a maes sy'n esblygu.

Yng Nghymru mae'r term 'gwerth cymdeithasol' yn aml yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag 'effaith gymdeithasol', a 'budd cymunedol'. Nid oes llawer o gonsensws ynghylch a ddylai 'gwerth cymdeithasol' gael ei drin fel rhywbeth ar wahân ac yn wahanol i bryderon economaidd ac amgylcheddol, neu fel term ymbarél hollgynhwysol sy'n cynnwys metrigau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol (Hall 2015). Cytunir fodd bynnag bod gwerth cymdeithasol yn ddealltwriaeth ehangach o werth. Mae'n symud y tu hwnt i ddefnyddio arian fel y prif ddangosydd o werth, gan roi'r pwyslais yn lle hynny ar ymgysylltu â phobl i ddeall effaith penderfyniadau ar eu bywydau. Mae Social Value UK yn diffinio gwerth cymdeithasol fel:

*"meintoli'r pwysigrwydd cymharol y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau."*

Mae Social Value UK hefyd yn ychwanegu y gall y newidiadau hynny fod yn gymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd. Ac mae'n bwysig edrych ar effeithiau cadarnhaol a negyddol, er mwyn nodi gwir werth cymdeithasol.

Yn ogystal â'r amrywiaeth o safbwyntiau wrth ddiffinio gwerth cymdeithasol, bu llawer o drafod hefyd ynghylch sut y gellir mesur gwerth cymdeithasol. Mae sawl model wedi'u datblygu sy'n ceisio mesur 'gwerth cymdeithasol', gan gynnwys Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI), Themâu, Canlyniadau a Mesurau (TOMS) a Gwerthusiad Economaidd a Addaswyd yn Gymdeithasol (SMEV). Dadansoddiadau cost a budd economaidd yw'r rhain sy'n anelu at feintioli gwerth 'canlyniadau' ac 'allbynnau' penodol a chreu darlun o werth cymdeithasol sefydliad (Kelly a McNicoll 2011; NEF Consulting 2021). Mae academyddion fel Lawlor *et al*. (2008) a Kelly a McNicoll (2011) wedi pwysleisio mai'r broblem gyda SROI yn arbennig yw moneteiddio gwerth ariannol canlyniadau i gynhyrchu elw 'gwerth cymdeithasol' ar fuddsoddiad sy'n oddrychol ac yn dueddol o fod ag asesiadau rhy optimistaidd.

### Gwerth cymdeithasol yng Nghymru

Yng Nghymru, mae cytundeb cyffredinol bod gwerth cymdeithasol yn cael ei ddiffinio'n effeithiol drwy Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud

yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio’n well gyda phobl, cymunedau ac â’i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Er bod y dyletswyddau a amlinellir yn y Ddeddf yn ymwneud â sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn unig, mae llawer o sefydliadau preifat, trydydd sector ac addysgol yn defnyddio’r nodau llesiant a’r ffyrdd o weithio i lywio eu dulliau strategol.

Bydd Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol hefyd yn cael ei chryfhau gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a ddaeth i rym yn ddiweddar, a fydd yn darparu fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus gan weithio drwy bartneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cyfrifol sy’n gyfrifol yn gymdeithasol Unwaith eto, mae’r Ddeddf yn ymwneud â chyrff cyhoeddus, ond mae ein hymchwil wedi dangos bod llawer o sefydliadau AB yng Nghymru eisoes wedi dechrau ystyried sut y bydd gofynion y Ddeddf yn effeithio arnynt ac mae rhai hefyd wedi dechrau rhoi newidiadau gweithdrefnol ar waith.

Hyd yma, mae’r pwyslais ar werth cymdeithasol yng Nghymru wedi bod ar gaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae’r dull hwn wedi cydnabod bod caffael yn y sector cyhoeddus yn un o nifer o liferi pwerus a all sicrhau canlyniadau gwerth cymdeithasol ar gyfer llesiant Cymru, gan gydnabod bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £7 biliwn bob blwyddyn yn caffael amrywiaeth o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. O ran caffael, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio diffiniad Coleg Masnachol y Llywodraeth (2020), fel yr amlinellir yn Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) 01/20:

> *Mae “Gwerth Cymdeithasol” yn derm eang a ddefnyddir i ddisgrifio effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd camau a gymerir gan gymunedau, sefydliadau, llywodraethau ac unigolion.”*

Pwysleisiodd ymchwil a gynhaliwyd yn flaenorol gan Cwmpas (Adroddiad Cryno ar adolygiad gwerth cymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2022) fod llawer o gyrff yn y sector cyhoeddus am i Lywodraeth Cymru gymryd yr awenau o ran diffinio gwerth cymdeithasol mewn cyd-destun Cymreig a bod angen i unrhyw ddiffiniad gael ei gysylltu’n glir â Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol.

### Gwerth cymdeithasol o fewn y sector Addysg

Mae nifer o ymchwilwyr wedi dechrau archwilio beth yw gwerth cymdeithasol o fewn sefydliadau addysgol. Yng nghyd-destun prifysgolion, mae gwerth cymdeithasol wedi'i ddiffinio fel y croniad o werth 'a gynhyrchir trwy addysgu, ymchwil, cyfnewid gwybodaeth ac allanoldebau adnabyddadwy' (Kelly a McNicoll 2011). Mae’r diffiniad hwn wedi’i gyfyngu’n bennaf i’r ystafell ddosbarth, gan roi llai o sylw i'r effaith ehangach. Er mwyn mesur gwerth cymdeithasol ehangach colegau bydd yn bwysig cydnabod gallu coleg i ychwanegu gwerth mewn termau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth (IPPR Scotland, 2023).

Ychydig iawn o ymchwil sy'n canolbwyntio ar werth cymdeithasol mewn lleoliadau AB. Fodd bynnag, cyhoeddwyd adroddiad 'Baseline Assessment of Social Value for City of Glasgow College' gan IPPR Scotland yn gynnar yn 2023. Mae'r ymchwil wedi bod yn hynod ddefnyddiol, ac roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan dîm IPPR Scotland yn debyg iawn i'r ffordd y mae Cwmpas a CLES wedi ymdrin â'r adolygiad ehangach hwn o werth cymdeithasol AB yng Nghymru. Mae dulliau methodolegol y ddau ddarn o waith wrth gwrs wedi'u llywio gan gyd-destun polisi rhanbarthol a dylid nodi bod Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi canolbwyntio ar yr Economi Llesiant. Er nad oes unrhyw beth cyfatebol i Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn yr Alban, roedd Llywodraeth yr Alban wedi datblygu Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol (NPF), sydd yn ei ffurf bresennol wedi'i ysbrydoli'n drwm gan Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

### Archwilio gwerth cymdeithasol yn y sector AB yng Nghymru

Dyma'r darn cyntaf o ymchwil sydd wedi archwilio gwerth cymdeithasol yn y sector AB yng Nghymru. Nid ydym wedi ceisio diffinio gwerth cymdeithasol o fewn y cyd-destun addysgol hwn, fodd bynnag mae ein hymchwil desg, yr adolygiad o sbardunau strategol cyfredol, ein cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol yn y sector a phresenoldeb yng nghynhadledd ColegauCymru wedi ein helpu i ffurfio elfennau craidd gwerth cymdeithasol mewn AB yng Nghymru.

Dylid nodi, er bod tebygrwydd sylweddol rhwng pob un o'r sefydliadau AB yng Nghymru, bod gwahaniaethau sylweddol hefyd; gyda phob coleg yn addasu i amgylchiadau a chyfleoedd lleol/rhanbarthol.

Anaml y caiff y term gwerth cymdeithasol ei ddefnyddio'n benodol gan y sector AB yng Nghymru pan fydd yn disgrifio ei weledigaeth, ei genhadaeth, ei nodau strategol a'i effaith. Ond yr hyn sy'n amlwg o'n hymchwil yw bod gwerth cymdeithasol ymhlyg ym mron pob un o weithgareddau'r colegau AB a gallai'r dull hwn fod yn declyn buddiol iawn i bwysleisio cyrhaeddiad ehangach y sector.

Mae pob un o'r sefydliadau AB yn gweithredu fel sefydliad angori wrth ffurfio'r economi leol/rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol. Maent yn darparu hyfforddiant sgiliau yn ogystal â datblygu cyrsiau hyfforddi newydd i lenwi bylchau sgiliau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae nifer o'r colegau hefyd wedi sicrhau Cyllid Ffyniant a Rennir (SPF) i gyflwyno rhaglenni sgiliau ac arloesi ychwanegol, gyda llawer o'r rhain yn canolbwyntio ar sgiliau yn yr economi werdd, digidol a thechnegau gweithgynhyrchu uwch. Mae'r sector yn dechrau edrych ar wariant caffael lleol, yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf ac yn tynnu sylw at gyfleoedd lle gellir defnyddio neu ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol. Mae sefydliadau AB hefyd yn edrych ar eu rôl o ran adfywio canol trefi; er enghraifft, sut y gall campysau newydd mewn lleoliadau canol tref gynyddu nifer yr ymwelwyr lleol a datblygu economïau yn ystod y dydd ac yn ystod y nos.

Mae'r sector wedi mabwysiadu dull **'Canolbwyntio ar Bobl'** gyda dysgwyr a staff yn greiddiol iddo Mae pob sefydliad yn ystyried sut y gall ddarparu mwy o gymorth a gwerth ychwanegol i'w myfyrwyr. Mae hyn hefyd yn cynnwys darparu cyfleoedd dysgu gydol oes, yn ogystal ag ymgorffori cydraddoldeb, trwy gamau fel cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol drwy ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol ym mhob coleg; dan arweiniad ColegauCymru a'r Black Leadership Group.. Mae colegau AB hefyd yn cyflogi'n lleol, gan hyrwyddo gwaith teg a chyfleoedd cyfartal i'w staff. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae llawer hefyd yn ystyried goblygiadau'r ddeddfwriaeth Partneriaethau Cymdeithasol newydd a'r ffordd y maent yn ymgysylltu â staff ac Undebau. Ar ôl Covid, bu twf sylweddol yn y cymorth iechyd meddwl a lles sydd ar gael i ddysgwyr a staff.

Roedd **cydweithio** yn un o themâu allweddol cynhadledd ColegauCymru[2] ym mis Hydref 2023. Mae pob sefydliad yn darparu gwerth economaidd a chymdeithasol ychwanegol drwy'r gwaith y mae'n ei wneud gyda busnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau addysg eraill a'r cyfleoedd y mae'r partneriaethau hyn yn eu creu i fyfyrwyr a gweithwyr y colegau a sefydliadau partner. Mae yna hefyd feysydd lle mae AB yn creu gwerth cymdeithasol mewn meysydd y gellid eu hystyried yn 'draddodiadol' i'r sector, megis partneriaethau rhyngwladol ac ymchwil.

**Cymuned:** Mae mwyafrif y colegau yn cefnogi eu cymunedau lleol mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno dosbarthiadau a gweithgareddau o fewn lleoliadau cymunedol, trefnu a chefnogi digwyddiadau cymunedol ac ar gyfer colegau eraill mae'r campws yn cael ei weld fel ased cymunedol, sy'n cynnal clybiau chwaraeon a darparu mannau cyfarfod ar gyfer grwpiau cymunedol ac elusennau lleol. Ni ddefnyddiwyd y term cenhadaeth ddinesig yn ystod y cyfweliadau ac mae hwn yn derm y gellir ei ystyried weithiau fel gweithgareddau 'ychwanegol' y mae sefydliad yn eu cyflawni, tra roedd y gweithgareddau a drafodwyd gan y sector AB yn teimlo'n llawer mwy naturiol, ac wedi eu gwreiddio o fewn eu cymunedau lleol.

Mae'r sefydliadau AB yn parhau i wreiddio'r Gymraeg yn eu lleoliadau. Mae'r cynnydd a wnaed yn adlewyrchu gwahaniaethau rhanbarthol, ond mae llawer bellach yn cynnig cyrsiau, cyfleoedd gwaith a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg ac i eraill maent yn datblygu gallu a hyder dysgwyr a staff i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob lefel. Soniodd un Pennaeth coleg fod 55 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad ar y campws ac felly mae cymorth ieithyddol, yn enwedig drwy'r ddarpariaeth ESOL, yn mynd y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae colegau hefyd yn cyflwyno gwerth cymdeithasol trwy eu gweithgareddau diwylliannol, ac mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn dwyn ffrwyth trwy addysgu pynciau creadigol a chelfyddydol, megis dylunio gwisgoedd. I eraill, fodd bynnag,

---

[2] https://www.colegau.cymru/image/event/ColegauCymru%20Annual%20Conference/2023/ColegauCymru%20Annual%20Conference%202023%20-%20Bilingual%20Programme.pdf

maent yn meddu ar asedau diwylliannol gwerthfawr, megis theatrau lleol, ac yn eu cynnal.

Mae cynaliadwyedd a chynllunio ar gyfer sero net yn gydran drawsbynciol arall a ddefnyddir gan y sector AB i gynhyrchu gwerth cymdeithasol. Mae’r llwybr i sero net yn sail i gynlluniau strategol ac mae’n cael ei ymgorffori yng nghynlluniau’r dyfodol; yn enwedig o ran datblygu’r campws yn y dyfodol. Mae colegau hefyd yn cynnwys modiwlau cynaliadwyedd mewn gwahanol gyrsiau, gan ddatblygu academïau sgiliau gwyrdd, mesur eu hôl troed amgylcheddol, adolygu ac ailgynllunio’r system ynni bresennol ac yn ôl-osod asedau eu stadau.

# Canfyddiadau

Mae'r penodau canlynol yn cyflwyno trosolwg o'r gwerth cymdeithasol sy'n cael ei gynhyrchu gan y sector AB yn erbyn pob un o'r nodau llesiant. Mae pob pennod yn cynnwys dadansoddiad o'r data ansoddol a meintiol y gwnaethom ei gasglu ac yn defnyddio enghreifftiau o astudiaethau achos byr i ddangos maint y gweithgaredd gwerth cymdeithasol sy'n cael ei wneud yn erbyn pob un o'r nodau.

# WBG1 - Cymru lewyrchus

### Rhagymadrodd

Wrth fynd ar drywydd Cymru lewyrchus, mae’r croestoriad strategol rhwng addysg, datblygu sgiliau, a mentrau cydweithredol yn ganolog, ac rydym wedi gweld hyn yn cael ei bwysleisio yng Nghenhadaeth Economaidd ddiwygiedig Llywodraeth Cymru. Mae’r bennod hon yn canolbwyntio ar Nod Llesiant 1: "Cymru Lewyrchus" ac mae'n rhoi enghreifftiau o sut a ble mae'r sector AB yng Nghymru yn defnyddio'r sbardunau strategol presennol i lunio'r gwerth cymdeithasol y mae'n ei greu. Mae’r enghreifftiau a gyflwynwyd yn tanlinellu ymhellach sut mae’r mentrau addysgol hyn yn cael eu trosi’n ddeilliannau diriaethol, gan ysgogi llesiant economaidd, gwella sgiliau, a chyfrannu at ffyniant unigolion a chymunedau.


Yn gyntaf, roeddem am archwilio maint presennol y sector a'r pynciau sy'n cael eu haddysgu.

### Data: Rhifau Myfyrwyr


O flwyddyn academaidd 2021/22, y data diweddaraf sydd ar gael, roedd 119,300 o ddysgwyr unigryw mewn sefydliadau AB yng Nghymru; cynnydd o tua 10% ar y flwyddyn flaenorol.

Mae hyn yn cynrychioli’r nifer uchaf o ddysgwyr unigryw mewn dysgu oedolion ers 2018/19 (er bod pandemig Coronafeirws (COVID-19) wedi amharu ar y ddarpariaeth addysg o fis Mawrth 2020 ymlaen ac mae’n bosibl y bydd yr effeithiau i’w gweld o hyd yn y ffigurau diweddaraf sydd ar gael.

Sbardunwyd y cynnydd hwn yn bennaf gan adferiad yn nifer y dysgwyr rhan-amser mewn Sefydliadau Addysg Bellach (cynnydd o 28%), i niferoedd nas gwelwyd ers 2018/19. Gostyngodd nifer y myfyrwyr amser llawn -5% a chynyddodd nifer y rhai mewn dysgu seiliedig ar waith (prentisiaethau Sylfaen a Lefel 3 yn bennaf) 7%. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i werth cymdeithasol trwy ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig.




**Data: Gweithgaredd Dysgu yn ôl Maes Pwnc**




Mae'r graff yn dangos pwyslais sylweddol ar gyrsiau a datblygu sgiliau o fewn iechyd a gwasanaethau cyhoeddus ac amlygwyd hyn yn y cyfweliadau ansoddol a gynhaliwyd gennym. Gwelwn hefyd fod colegau AB yng Nghymru yn darparu sgiliau a hyfforddiant ar draws amrywiaeth o'n sectorau economi sylfaenol.

Wrth i ni ymchwilio i'r data am niferoedd myfyrwyr mewn sefydliadau AB yng Nghymru, mae'n dod yn amlwg bod addysg yn chwarae rhan ganolog wrth lunio dyfodol llewyrchus. Ond o ran gwerth cymdeithasol mae ein hymchwil wedi dangos bod colegau AB, fel sefydliadau angori, yn creu cyfleoedd cyflogaeth ac yn creu cyfoeth lleol trwy nifer o wahanol lwybrau ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithio'n agos gyda busnesau lleol i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys hyfforddiant proffesiynol, ar bob lefel a datblygu llwybrau dysgu gydol oes. Mae'r dull hwn hefyd yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen yn yr economi leol.
- Gweithio ar y cyd â sefydliadau partner i ddatblygu prosiectau arloesol a fydd yn sail i sgiliau'r dyfodol ac economïau carbon isel.
- Gweithio'n strategol gyda sefydliadau angori eraill, megis Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, i ddarparu'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen o fewn yr economi sylfaenol a galluogi pobl ifanc i ddod o hyd i swyddi yn eu cymunedau lleol.

### Gweithio gyda Busnesau Lleol

Trafododd pob un o'r colegau AB gyda ni sut y maent yn gweithio'n agos gyda busnesau lleol i ddatblygu cyfleoedd dysgu a sgiliau ac mae'r enghraifft isod yn rhoi trosolwg o'r mathau o wasanaethau sydd wedi'u datblygu.

### Busnes@LlandrilloMenai

Cychwynnwyd Busnes@LlandrilloMenai (Busnes@) i'w gwneud hi'n haws i gyflogwyr ddilyn llwybr a oedd gynt yn gymhleth i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi a phrentisiaeth. Trwy greu "darparwr seiliedig ar gyflogwr" canolog mae'r coleg wedi gallu tyfu eu gwasanaethau'n sylweddol ac erbyn 2023 mae Busnes@ yn cyfrif am 30% o ddarpariaeth Grŵp Llandrillo Menai. Mae Busnes@ yn darparu gwasanaethau i sefydliadau lleol, gan gynnwys sefydliadau sector cyhoeddus, ar draws Gogledd Orllewin Cymru, gan gynnwys:

- Cyrsiau proffesiynol
- Cyrsiau byr
- Prentisiaethau

Mae Business@ hefyd yn darparu ystod o wasanaethau arbenigol e.e.

- Sefydlwyd Canolfan Technoleg Bwyd (FTC) ar gampws Llangefni ym 1999 ac mae'n chwarae rhan allweddol wrth drosglwyddo gwybodaeth i'r diwydiant bwyd yng Nghymru a ledled y DU. Mae gan y Ganolfan Technoleg Bwyd adnoddau penodol gan gynnwys neuaddau prosesu pwrpasol ar gyfer cig a physgod ffres, cynnyrch llaeth a bwydydd parod; cegin brofi i ddatblygu cynnyrch a labordy dadansoddi.
- Mae'r Ganolfan Sgiliau Seilwaith a Thechnoleg (CIST) sydd hefyd ar gampws Grŵp Llandrillo Menai yn Llangefni yn gyfleuster hyfforddi sgiliau Seilwaith o ansawdd uchel, gydag ethos sylfaenol o ddarparu partneriaethau arbenigol. Mae CIST yn blatfform i ddiwydiant ymgysylltu â datrysiadau a chynhyrchion arloesol a'u hyrwyddo, gan ddod yn brif safle o ddewis ar gyfer arddangos cynnyrch yng Ngogledd Cymru neu'n ehangach.

## Sgiliau sydd eu hangen yn yr Economi Leol a Rhanbarthol

Daw'r enghreifftiau isod o Orllewin Cymru ac maent yn dangos sut mae'r tri sefydliad AB yn cydweithio i gyflwyno dull strategol o ddatblygu sgiliau, yn seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol.

### Cydweithrediad rhwng Coleg Sir Gâr, Coleg Ceredigion a Choleg Sir Benfro

Mae Coleg Sir Benfro, Coleg Sir Gâr, a Choleg Ceredigion yn canolbwyntio ar wella profiad y dysgwr a datblygu arferion addysgu. Mae'r sefydliadau AB hyn yn gwerthfawrogi cymorth, gofal, ac arweinyddiaeth dryloyw ac maent wedi ymrwymo i adeiladu Cymru lewyrchus, iach a chydnerth, a adlewyrchir yn eu cynlluniau strategol.

Mae'r colegau'n gweld gwerth, gan gynnwys gwerth cymdeithasol, mewn cysoni eu cenadaethau i gydweithio'n agosach, sydd wedi arwain at sefydlu Gweithred Gymdeithasu. Mae'r weithred hon yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithio a chreu cynghrair newydd o golegau. Nod y gynghrair yw cyflawni newidiadau trawsnewidiol yn eu cymunedau a sefydlu llwyfan ar gyfer datblygiadau cydweithredol yn y dyfodol.

Cred Prif Weithredwyr a Phenaethiaid y colegau y bydd y gynghrair yn eu galluogi i ddiwallu anghenion eu cymunedau o fyfyrwyr, cyflogwyr, a'r rhanbarth cyfan yn well, yn enwedig yn y sectorau iechyd, adeiladu, ac ynni.

Mae'r fenter hon yn cyd-fynd â nod llesiant 'Cymru Ffyniannus' gan ei bod yn hyrwyddo addysg a datblygu sgiliau, sy'n sbardunau allweddol i ffyniant economaidd. Trwy feithrin cydweithio a chanolbwyntio ar ddatblygiad rhanbarthol strategol, mae'r colegau'n cyfrannu at ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae hyn yn creu amodau ar gyfer gweithgarwch economaidd cynaliadwy, a thrwy hynny gyfrannu at ffyniant Cymru.

Mae'r enghreifftiau penodol isod hefyd yn amlygu sut mae'r bartneriaeth strategol hon wedi bod yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddatblygu llwybrau prentisiaeth:

### Prentis yn Ysbyty Glangwili

Mae'r enghraifft hon yn ymwneud ag unigolyn a roddodd y disgrifiad canlynol o'i brofiad. Roedd yr unigolyn yn brentis, yn 2022, yn ysbyty Glangwili, Caerfyrddin. Roedd wedi bod â thuedd bob amser at feddygaeth neu ofal ac roedd yn well ganddo ymagwedd ymarferol at ddysgu. Arweiniodd hyn y prentis at ennill cymhwyster iechyd a gofal cymdeithasol yn y coleg. Ar ôl dysgu am yr Academi Brentisiaeth gyda Hywel Dda gan ei diwtor coleg, fe wnaeth dipyn o waith ymchwil a phenderfynu gwneud cais. Bu'n llwyddiannus ac ymunodd â'r bwrdd iechyd ym mis Medi 2022.

Roedd yn ystyried ei brofiad yn anhygoel ac roedd yn teimlo fel rhan o'r tîm a chafodd ei ysgogi gan ofal ac angerdd y staff. Mae'r gefnogaeth gan yr Academi Prentisiaethau wedi bod yn aruthrol, gan ei helpu trwy ei adolygiad porth a symud ymlaen i'r cam nesaf.

Un o’r munudau cofiadwy oedd cael ei wahodd i'r diwrnod asesu ar gyfer darpar ymgeiswyr 2023. Bu’n rhannu ei brofiadau cadarnhaol gyda’r ymgeiswyr nerfus ac yn egluro manteision y llwybr prentisiaeth. Mae bellach wedi symud ymlaen i hyfforddi fel nyrs gymwysedig.

### Prentis yn Ysbyty Tywysog Philip (PPH)

Mae'r enghraifft hon yn ymwneud ag unigolyn a roddodd y disgrifiad canlynol o'i brofiad. Mae'r unigolyn yn yr astudiaeth achos hon yn brentis gyda PPH. Roedd wedi mwynhau’r ysgol ac roedd ganddo awydd i ddilyn gyrfa ym maes gofalu. Er gwaethaf wynebu cyfnod o afiechyd a gofalu am aelod sâl o’r teulu, cafodd ei ysbrydoli gan y gefnogaeth a gawsant gan y GIG a phenderfynu rhoi rhywbeth yn ôl. I ddechrau, gwnaeth gofrestru ar gwrs mynediad i nyrsio yn y coleg, ond cafodd ei ddenu at lwybrau'r Academi Prentisiaethau. Gwnaeth gais a bu’n llwyddiannus.

Mae’r daith wedi bod yn werth chweil, ond nid heb heriau. Roedd cydbwyso bod yn fam, gofal teulu, astudio, a gwaith yn anodd ar brydiau, ond fe wnaeth cefnogaeth yr Academi ei helpu i ddod drwyddi. Un o’i phrofiadau mwyaf cofiadwy oedd arsylwi a chynorthwyo gyda gweithdrefn lawfeddygol, a roddodd gyfle iddi roi cysur a sicrwydd i'r claf.

Mae’n credu bod y brentisiaeth yn gyfle gwych i unigolion ar unrhyw adeg o’u bywyd neu eu gyrfa. Mae’n ddiolchgar i bawb yn Hywel Dda am y cyfle i ddod yn nyrs sydd wedi cymhwyso’n llawn.

Yn ogystal â’r enghreifftiau uchod, canfuom fod colegau eraill hefyd yn creu llwybrau mwy arloesol i yrfaoedd iechyd a gofal, fel yr amlinellir yn yr enghraifft isod gan Goleg Merthyr Tudful:

### Cynllun Cadetiaid Nyrsio Coleg Merthyr Tudful

Mae Coleg Merthyr Tudful wedi ymuno mewn partneriaeth â’r Coleg Nyrsio Brenhinol i fod y coleg addysg bellach cyntaf i gynnig cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru yr RCN i ddysgwyr coleg sy’n dymuno dilyn gyrfa mewn nyrsio neu broffesiynau eraill yn y GIG. Nod y cynllun yw ysbrydoli pobl ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, i weithio ym maes iechyd a gofal trwy roi mynediad iddynt i gyfleoedd ar gyfer astudio academaidd a phrofiad ymarferol yn y sector nyrsio ac iechyd.

Gan gyfuno 105 awr o ddysgu dan arweiniad a thrwy brofiad ag 20 awr o leoliadau arsylwi clinigol, bydd y cynllun yn rhoi cyfle i ddysgwyr sy’n astudio ar y cyrsiau Iechyd a Gofal a Mynediad ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol y diwydiant a chael profiad uniongyrchol o sut deimlad fyddai bod yn gweithio yn y proffesiwn.

Meddai rheolwr y prosiect: “Mae yna brinder pobl ifanc yn mynd i mewn i’r sector a’r proffesiynau gofal ledled Cymru ac rydyn ni’n mawr obeithio y bydd y cynllun hwn yn helpu i ymdrin â hyn”.

## Gweithio ar y Cyd

Mae sefydliadau AB hefyd yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid gwahanol i sicrhau gwerth cymdeithasol. Daw'r enghraifft gyntaf isod o Goleg Sir Benfro. Mae'n datblygu ar yr enghreifftiau a amlinellwyd uchod ac yn dangos yn wirioneddol sut mae'r sector AB yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu'r sgiliau sector sydd eu hangen yn lleol a datblygu cyfleoedd am swyddi â chyflog da sy'n galluogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau lleol.

## Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy

Mae Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy/ Destination Renewables yn rhaglen 2 flynedd wedi'i hanelu at bobl ifanc 16-18 oed sy'n astudio peirianneg, busnes, adeiladu, neu byncia Safon Uwch. Fe'i cynlluniwyd i feithrin gweithlu medrus ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy sy'n tyfu ac mae'n cynnig cymhwyster EPQ. Mae'n brosiect a arweinir gan Goleg Sir Benfro, EDF Renewables UK, a DP Energy, ac fe'i cefnogir gan raglen Sgiliau a Thalent Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r rhaglen hon yn fenter ar y cyd a ariennir gan Lywodraethau Cymru a'r DU, ynghyd â buddsoddiad gan y sector preifat.

Mae'r rhaglen yn cynnwys technolegau adnewyddadwy amrywiol fel tonnau, llanw, gwynt ar y tir ac ar y môr, pŵer solar a storio ynni. Mae nid yn unig yn cyflwyno myfyrwyr i gylch bywyd datblygu prosiect yn y sector ynni adnewyddadwy, ond mae hefyd yn tynnu sylw at y llwybrau gyrfa amrywiol o fewn y diwydiant. Mae'r fenter yn cysylltu myfyrwyr yn strategol â darpar gyflogwyr y dyfodol, gan ddangos iddynt yr amrywiaeth eang o gyfleoedd sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y sector ynni adnewyddadwy.

Mae nifer o'r sefydliadau AB yng Nghymru wedi llwyddo i gael arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) Llywodraeth y DU a bydd rhai o'r rhain yn cael eu harchwilio mewn penodau diweddarach. Daw'r enghraifft nesaf gan Goleg Gwent ac mae'n un o ddim ond nifer fach o brosiectau sydd wedi derbyn cyllid gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU:

## HiVE Coleg Gwent

Mae Cyngor Sir Blaenau Gwent, mewn cydweithrediad â Choleg Gwent a phartneriaid mewn diwydiant, wedi sicrhau dros £12 miliwn o raglen Cymoedd Technoleg Llywodraeth Cymru a Chronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU i sefydlu cyfleuster Peirianneg Gwerth Uchel (HiVE). Lleolir y cyfleuster hwn ar hen safle ffatri Monwel Hankinson, ger canol tref Glynebwy a Pharth Dysgu Blaenau Gwent Coleg Gwent.

Bydd y cyfleuster yn cynnwys gofod addysgu o ansawdd uchel ar gyfer hyd at 600 o fyfyrwyr, gyda chyfarpar roboteg a gweithgynhyrchu o'r radd flaenaf. Ei nod yw cefnogi amcanion Rhaglen y Cymoedd Technoleg o greu ffocws technoleg uchel o'r radd flaenaf ar gyfer cwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Disgwylir i'r prosiect ddenu diwydiannau blaengar fel 5G, technoleg batrïau, ac ymchwil i gerbydau modurol ac awtonomaidd. Bydd dysgwyr Coleg Gwent yn derbyn hyfforddiant a sgiliau perthnasol ar gyfer swyddi yn y Sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch a Thechnolegau Digidol a Galluogi.

Bydd HiVE hefyd ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Blaenau Gwent a rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. Bydd y cyfleuster ar agor i holl drigolion Cymru, gyda ffocws ar annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddilyn gyrfaoedd STEM.

Bwriedir cwblhau'r gwaith adeiladu erbyn mis Gorffennaf 2024, yn barod i groesawu myfyrwyr, gan gynnwys y rhai sydd wedi cofrestru ar gyrsiau peirianneg yng Ngholeg Gwent o hydref 2024.

Mae llawer o golegau hefyd yn darparu astudiaethau Lefel Uwch ac isod mae enghraifft o Goleg Merthyr Tudful, sy'n dangos sut maent wedi bod yn gweithio ar y cyd â'r Awdurdod Lleol ac ysgolion lleol i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr ac yn creu gwerth cymdeithasol trwy ddarparu gweithgareddau allgyrsiol:

### Gweithio gydag Ysgolion

Mae Coleg Merthyr Tudful wedi llwyddo i greu dull partneriaeth unigryw ac arloesol gydag ysgolion, yr awdurdod lleol, cyflogwyr a'u cymuned leol i godi dyheadau, cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr a chefnogi dilyniant cadarnhaol i addysg uwch, prentisiaethau a chyflogaeth. Mae hyn wedi helpu i wella dewis i ddysgwyr, gwella ansawdd addysg, codi dyheadau a chynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach. Mae nifer o fentrau partneriaeth allweddol wedi hwyluso hyn.

Mae'r coleg wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol i ymgorffori ysgolion yn eu rhaglen Athrawon Rhagorol OLEVI, gyda'r nod allweddol o annog mwy o gydweithredu a rhannu arfer dda ar draws y sector. Hyfforddwyd staff o'r sector cynradd, uwchradd a choleg addysg bellach gan OLEVI fel hwyluswyr ac yna darparodd yr hwyluswyr cymwysedig hyn yr OTP ar gyfer carfan gymysg o gynrychiolwyr ar draws y tri sector gan gynnwys Ysgol Arbennig. Roedd y dull cydweithredol hwn yn gysyniad cwbl newydd ac arloesol nad oedd wedi'i gynnal na'i weld o'r blaen yn y DU.

Mae'r coleg wedi gweithio ar y cyd ag ysgolion Merthyr Tudful i ymgymryd â chynllunio cwricwlwm a rhifau. Mae rhanddeiliaid allweddol o'r coleg a phedair ysgol uwchradd leol wedi trafod a chynllunio pontio i'r coleg ac wedi archwilio llwybrau cwricwlwm i sicrhau bod gan y coleg lwybrau dilyniant priodol ar gael o'r llwybrau TGAU a gynigir ym mhob ysgol a bod yr ysgolion yn ymwybodol o'r cyrsiau a'r cyfleoedd a gynigir yn y coleg.

Mae Pennaeth Cynorthwyol y coleg yn aelod o Grŵp Llywio NEETS Merthyr Tudful ac mae hefyd yn cyfarfod yn fisol â grŵp gweithredol ôl-16 NEETS i olrhain ceisiadau a chofrestriadau dysgwyr a chanfod unrhyw gymorth sydd angen ei ddarparu i sicrhau y bydd y dysgwyr hyn yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r coleg.

Mae'r partneriaethau hyn wedi helpu i gyflwyno nifer o weithgareddau allweddol, ac mae rhestr anghyflawn o enghreifftiau yn cynnwys:

- llwybrau galwedigaethol 14-16 e.e., Cyngor ac Arweiniad Gyrfa i Flwyddyn 9, 10 ac 11
- Diwrnodau Blasu Blwyddyn 9, 10 ac 11

- Hyfforddiant chwaraeon
- Defnydd o gyfleusterau chwaraeon y coleg
- Mentora ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 a blwyddyn 10
- Sesiynau adolygu TGAU
- Teithiau addysgol/maes ar y cyd gan gynnwys teithiau tramor
- Digwyddiadau menter
- Gweithgareddau cyfoethogi gwyddoniaeth
- Gweithgareddau NACE ar gyfer dysgwyr Mwy Abl a Thalentog

## Casgliad

I gloi, mae'r bennod hon yn amlygu rôl ganolog sefydliadau Addysg Bellach (AB) wrth hyrwyddo Nod Llesiant 1: "Cymru lewyrchus." Mae'r data am gynnydd yn nifer y dysgwyr a'r pwyslais ar sectorau fel iechyd a gwasanaethau cyhoeddus yn tanlinellu'r ymrwymiad i werth cymdeithasol drwy feithrin poblogaeth fedrus. Mae mentrau cydweithredol, megis cynghreiriau rhwng colegau a phartneriaethau â busnesau lleol, yn enghraifft o gyfraniad gweithredol y sector at les economaidd a ffyniant cymunedol. Mae rhaglenni prentisiaeth a chynlluniau arloesol yn dangos ymhellach effaith drawsnewidiol partneriaethau strategol wrth ddiwallu anghenion sgiliau lleol a rhanbarthol. Trwy addysg ac ymdrechion ar y cyd, mae sefydliadau AB yn chwarae rhan hanfodol mewn gwireddu Cymru lewyrchus, gan gynhyrchu gwerth cymdeithasol sy'n effeithio'n gadarnhaol ar unigolion, cymunedau, a'r economi sylfaenol.

# WBG2 - Cymru Gydnerth

Mae’r bennod hon yn archwilio cadernid y sector AB yng Nghymru ac mae’r paramedrau gwerth cymdeithasol a drafodir yn yr adran hon wedi’u ffurfio gan ein hymchwil, yn enwedig Penaethiaid Colegau. Roedd cadernid yn un o’r pum gwerth a amlygwyd yn araith y Gweinidog (Jeremy Miles AoS) ym mis Ebrill 2022 ac rydym yn cydnabod bod y sector wedi’i ganmol am y ffordd yr ymatebodd ac yr ymaddasodd i’r pandemig Covid; roedd yr ymateb hwn hyd yn oed yn cynnwys bod yn rhan o’r cynnig ehangach ynghylch ysbyty maes.

Ers y pandemig rydym wedi gweld ymchwydd mewn diddordeb mewn cryfhau economïau lleol, boed hynny trwy’r economi sylfaenol, rôl trawsnewid canol trefi, swyddi yn nes at fentrau cartref yn ogystal â’r patrymau gwaith newydd, sy’n tanlinellu potensial - a chyfrifoldeb - colegau i geisio cyfrannu cymaint â phosibl at gyfleoedd a ffyniant lleol.

Mae sefydliadau AB yng Nghymru yn chwarae rhan ganolog wrth arfogi unigolion a busnesau â’r sgiliau a’r wybodaeth angenrheidiol i ffynnu mewn tirwedd sy’n datblygu’n gyflym. Mae’r bennod hon yn dangos sut mae colegau, drwy bolisïau a mentrau amrywiol, yn cyfrannu at gadernid y gweithlu, busnesau, yr amgylchedd, a chymunedau, gan ffurfio cymdeithas fwy cadarn ac addasol yn y pen draw. Roedd y themâu a ddeilliodd o’r ymchwil ar gyfer y nod hwn yn cynnwys:

- Mae colegau AB yn gyflogwyr mawr yn eu hardaloedd/rhanbarthau, ac maent hefyd yn cyflogi nifer sylweddol o staff sy’n byw’n lleol
- Mae llawer wedi datblygu strategaethau caffael cynaliadwy ac yn dechrau defnyddio caffael fel lifer i gadw cyfoeth yn lleol a datblygu cadwyni cyflenwi lleol, fodd bynnag, mae’n ymddangos bod yna gyfleoedd i ddatblygu’r cysyniad o werth cymdeithasol ymhellach, yn enwedig o fewn prosiectau cyfalaf.
- Derbyn arian drwy’r Gronfa Ffyniant Gyffredin i roi prosiectau ar waith a fydd yn datblygu economïau a chyfleoedd cyflogaeth gwydn
- Mae nifer o golegau wedi datblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol
- Mae amrywiaeth eang o brosiectau ymchwil amgylcheddol a bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni gan y sector
- Mae’r rhan fwyaf o golegau AB wedi ymgorffori Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol yn eu gweithgareddau cynllunio strategol ac wedi dechrau edrych ar ofynion y ddeddfwriaeth Partneriaethau Cymdeithasol newydd.

Trwy archwilio mesurau allweddol megis data gweithwyr a data caffael[3], rydym yn dangos cyfraniad cynhwysfawr colegau at ddatblygu gweithlu, cynaliadwyedd economaidd, cynaliadwyedd amgylcheddol a chadernid cymunedol. Mae’r enghreifftiau a nodir isod hefyd yn cysylltu â nifer o’r nodau llesiant eraill yr ydym yn eu trafod yn yr adroddiad hwn; yn fwyaf nodedig nodau 1, 3 a 7.

---


[3] Cafwyd y data caffael a chyflogaeth diweddaraf sydd ar gael trwy gymysgedd o ddata crai o’r colegau unigol (blynyddoedd ariannol 22/23 fel arfer), ond pan nad oedd hwn ar gael o adroddiadau ariannol/blynyddol y coleg, yn achlysurol o flynyddoedd blaenorol megis 21/22, wedi’u cyfuno i gael cyfrif cynhwysfawr o gyfanswm y buddsoddiad o ran caffael a chyflogaeth.


## Cyfleoedd Cyflogaeth Lleol

Ym maes data gweithwyr, mae metrigau hanfodol megis cyfanswm nifer y swyddi, bandiau cyflog, lleoliad preswylwyr, a'r gwariant cyffredinol ar gyflogau yn dod yn ddangosyddion allweddol o effaith mentrau addysgol. Ar yr un pryd, mae archwilio data caffael, gan gynnwys gwariant gyda chyflenwyr a gwybodaeth fanwl am gyflenwyr, yn rhoi cipolwg ar sut mae colegau'n ymgysylltu'n weithredol â busnesau lleol, gan gyfrannu at dwf economaidd a sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn gynaliadwy. Mae categoreiddio cyflenwyr yn seiliedig ar leoliadau yn allweddol i ddeall sut mae colegau'n meithrin cydweithrediad â busnesau, gan atgyfnerthu cadernid y gymuned ehangach drwy bartneriaethau strategol a chymorth.

## Data: Cyflogaeth

Cyflwynir yn y graffiau isod y costau staff o'u cymharu â chostau gweithredol eraill, yn ogystal â nifer y gweithwyr. Mae'r niferoedd hyn yn dangos bod buddsoddiad mawr yn y bobl a'r gadwyn gyflenwi, gyda chanran fawr ohono'n lleol. O'r colegau a ddarparodd ddata am 'swm y gwariant' yng Nghymru, roedden nhw'n gwario 48% ar gyfartaledd yng Nghymru. Er y gallai'r swm hwn ymddangos yn isel, mae'n bwysig cydnabod nad oes modd dylanwadu ar lawer iawn o gyfanswm y gwariant, ac felly mae'r swm hwn yn debygol o fod yn llawer uwch ar gyfer gwariant y gellir dylanwadu arno. Mae cymryd y ffigur hwn a'i gymhwyso at wariant cyfanredol yr holl golegau yn rhoi cyfanswm gwariant yng Nghymru o dros £60 miliwn. Gan fod llawer o'r gyflogaeth a'r gadwyn gyflenwi hon yn lleol, mae hyn yn helpu i gefnogi'r economi leol, ac yn arwain at gryfder a chadernid economaidd sydd mewn gwell sefyllfa i addasu i newidiadau neu siociau.






## Caffael Lleol Cynaliadwy

Mae ffocws gan golegau ar ganran y gwariant lleol yn arwydd o barodrwydd i ymrwymo i'r dirwedd fusnes leol ac adeiladu Cymru gydnerth trwy ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Mae dadansoddiad o adroddiad caffael Coleg Gŵyr yn dangos yr ymrwymiad trwm hwn i wariant lleol. Yn ogystal â rhoi dadansoddiad manwl o'r holl wariant ar gaffael, mae'r adroddiad yn manylu ar y symiau sy'n cael eu gwario'n lleol. Nid yn unig y mae hyn yn rhoi gwybodaeth am swm y gwariant lleol, mae'r ffaith eu bod yn rhoi gwybod am hyn fel ystadegyn yn dangos eu bod wedi ymrwymo i fonitro hyn oherwydd ei bwysigrwydd. Dadansoddodd y coleg y gwariant drwy'r cyfriflyfr prynu a nododd fod 44% o gyfanswm y gwariant yn lleol, gyda 73% yn cael ei wario yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn crybwyll bod y Coleg yn anelu at gynyddu lefel y cyfleoedd i gyflenwyr lleol, gan ddangos y gallai'r niferoedd hyn fod hyd yn oed yn uwch yn y dyfodol. Gwneir hyn trwy gysylltu â chyflenwyr lleol yn uniongyrchol gyda thendrau lle mae'r coleg yn ymwybodol o gyflenwr lleol addas. Lle nad yw'r coleg yn ymwybodol o gyflenwr lleol, bydd y swyddog caffael yn cynnal chwiliad i ganfod unrhyw gyflenwyr lleol posibl.

Mae'r enghraifft isod yn ymwneud â'r dull y mae Coleg Cambria wedi'i fabwysiadu ar gyfer caffael bwyd lleol:

Gan ddod ag ysbryd cyfoes i Wrecsam, mae Bwyty Iâl yng Ngholeg Cambria yn dod i'r amlwg nid yn unig fel hafan goginio ond fel catalydd ar gyfer gwytnwch yn y gymuned. Yn swatio o fewn adeilad Hafod gwerth £21m y coleg, mae'r bwyty'n cynnwys 'pentref masnachol' bywiog, gan feithrin nid yn unig ddanteithion gastronomig ond hefyd ethos cadarn. Wedi ymrwymo i'r fenter 'o'r fferm i'r fforc', mae Bwyty Iâl yn blaenoriaethu ffynonellau lleol, gan hyrwyddo cynhyrchwyr Cymreig a busnesau annibynnol, gan gynnwys eu fferm Llysfasi eu hunain, sy'n cyd-fynd yn rhwydd â'r nod gwydnwch ar gyfer y rhanbarth.

Nod Iâl yw paratoi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol ym maes lletygarwch. Trwy brofiadau trochi, o fewn y byd go iawn, mae myfyrwyr yn cael eu harfogi i lywio heriau'r diwydiant, gan gyfrannu at gadernid y gweithlu lleol. Yn agored ar gyfer cinio, swper, a the prynhawn, mae Bwyty Iâl yn ganolbwynt nid yn unig ar gyfer danteithion coginio ond hefyd ar gyfer meithrin cadernid a lles yn y gymuned. Mae dull arloesol a

chynaliadwy Bwyty Iâl yn cyd-fynd â'r weledigaeth o greu Cymru gydnerth, lle mae busnesau lleol yn ffynnu, a chenedlaethau'r dyfodol yn barod i wynebu cymhlethdodau'r byd proffesiynol gyda dewrder.

### Meithrin Cadernid yn yr Economi Leol

Fel y soniwyd yn y bennod flaenorol, mae colegau AB wedi bod yn cyrchu cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gyflwyno amrywiaeth o wahanol raglenni a phrosiectau. Isod mae 3 enghraifft o'r mathau o brosiectau sy'n cael eu cynnal, pob un ohonynt yn ymwneud â chreu gwydnwch lleol:

Mae'r Academi Ddigidol Werdd yn ymroddedig i gynorthwyo busnesau i integreiddio technolegau digidol newydd i wella effeithlonrwydd, cynhyrchiant, a lleihau allyriadau carbon, wrth leihau costau yr un pryd. Trwy raglen fentora, mae'r Academi yn cynorthwyo sefydliadau i asesu eu statws presennol a llunio cynllun i nodi cyfleoedd hyfforddi ac ariannu a fydd yn ei gwneud yn haws i leihau ôl troed carbon.

Mae Hyfforddiant Net Sero Training Gwynedd yn brosiect £500K, a bydd yn cynnig hyfforddiant uwch mewn dadgarboneiddio, egni adnewyddadwy, a sgiliau ôl-osod o Dŷ Gwyrddfai, Penygroes. Bydd hyfforddiant y ganolfan yn grymuso unigolion a busnesau i gaffael sgiliau ym maes lleihau carbon sy'n datblygu'n barhaus. Mae hyfforddiant y diwydiant yn cynnwys inswleiddio waliau allanol, gosod a chynnal a chadw paneli solar, pympiau gwres ffynhonnell aer a daear a storio trydan mewn batrïau. Tŷ Gwyrddfai, sy'n enwog fel canolfan ddatgarboneiddio sy'n arwain y byd, fydd y cartref i'r ganolfan newydd hon. Bydd y prosiect yn cael ei weithredu mewn cydweithrediad â Chymdeithas Tai Adra.

Cyflwynir y ddwy raglen hon gan Goleg Llandrillo Menai.

Mae Cook24 yn brosiect sy'n borth i sgiliau bwyd sy'n cael ei arwain gan Goleg Sir Gâr. Ystyrir y gall y rhaglen newid dyfodol unigolion a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Cyflwynir Cook24 gan weithwyr proffesiynol profiadol ac ysbrydoledig yn y diwydiant sy'n gweithio yn rhai o'r busnesau mwyaf llwyddiannus a chreadigol yng Nghymru a'r nod yw cynnig sylfaen eang yn y technegau coginio hanfodol, ynghyd â mewnwelediadau amhrisiadwy i'r diwydiant, gan bobl sydd wedi llwyddo ar y lefel uchaf yn eu meysydd eu hunain.

Mae Colegau AB hefyd wedi bod yn gweithio gyda busnesau yn y sector diwydiannau lleol i ymdrin â phrinder sgiliau lleol:

Mae'r rhaglen Barod am Waith sy'n cynnwys Coleg Sir Benfro yn dyst i wydnwch wrth ymdrin â phrinder sgiliau a darparu cyfleoedd cyflogaeth. Trwy gyflwyno hyfforddiant sy'n berthnasol i'r diwydiant a hwyluso profiad gwaith, mae Barod am Waith yn sicrhau bod unigolion nid yn unig yn meddu ar sgiliau hanfodol ond hefyd yn cael eu hintegreiddio'n rhwydd i'r diwydiant peirianneg adeiladu. Mae llwyddiant y rhaglen wrth gynnig cyflogaeth i 90% o'i charfan gyntaf yn amlygu ei rôl ganolog o ran gwella cadernid y gweithlu a bodloni gofynion y farchnad swyddi leol.

Mae Coleg Cambria a Sapphire Streams (darparwr Cartrefi Gofal Nyrsio a Phreswyl) wedi datblygu perthynas amhrisiadwy sy'n dangos y gwydnwch a feithrinwyd trwy ymdrechion cydweithredol. O ddarparu hyfforddiant a chynnwys prentisiaid i gymryd rhan weithredol yn y bwrdd cynghori Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae Sapphire Streams yn cyfrannu at

ffurfio dyfodol addysg a chyflogaeth yn y sector gofal iechyd. Mae sefydlu cyfleoedd am brofiad gwaith a rhaglenni gwirfoddolwyr yn dangos ymrwymiad i feithrin gwydnwch nid yn unig yn y gweithlu ond hefyd yn y gymuned myfyrwyr.

Mae enghraifft arall o Goleg Cambria yn ymwneud â'u cydweithrediad â'r NDT Group Ltd's. Mae'r cydweithrediad hwn yn enghraifft o'r berthynas symbiotig rhwng addysg a diwydiant. Trwy ddarparu cyfleoedd am brofiad gwaith i brentisiaid peirianneg, mae NDT Group Ltd nid yn unig yn cefnogi mentrau addysgol y coleg ond hefyd yn ennill darpar weithiwr dawnus. Mae'r bartneriaeth hon sydd o fudd i'r ddwy ochr yn tanlinellu pwysigrwydd buddsoddi yn y gymuned leol ac addysg i sicrhau gweithlu cadarn a thwf busnes cynaliadwy.

### Datblygu Cynefinoedd Naturiol

O fewn Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol mae'r ail nod hwn yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth ac ecosystemau, ac mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut mae sefydliadau AB yn cyflawni gwerth cymdeithasol trwy brosiectau amgylcheddol:

Mae Coleg Cambria wedi dangos ymrwymiad i wella bioamrywiaeth trwy ei weithgareddau a'i fentrau amgylcheddol sy'n cynnwys plannu coed, creu dolydd blodau gwyllt a gwaith arall sydd wedi'i ddylunio i wella cynefin naturiol ardaloedd fel Llaneurgain, Glannau Dyfrdwy a Llysfasi. Mae rhai o'u prosiectau a'u llwyddiannau nodedig yn cynnwys plannu 840 o goed yn ardal coetir Llaneurgain, troi nifer o ardaloedd yn ddolydd blodau gwyllt, gan gynnwys 500 metr sgwâr o safleoedd oedd yn tyfu glaswellt yn Llaneurgain, Glannau Dyfrdwy a Llysfasi. Mae'r gweithredoedd hyn wedi gweld planhigion prin fel tegeirianau gwenyn gwyllt yn dychwelyd am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd. Ymhellach, enillodd Coleg Cambria statws cyfeillgar i wenyn yn 2021. Mae'r gweithgareddau hyn wedi gwella bioamrywiaeth yr ardaloedd hyn yn sylweddol, gan ychwanegu at sefydlogrwydd ecosystemau a chyfrannu at broblem fyd-eang lleihau allyriadau carbon.

Mae'r cynnydd mewn bioamrywiaeth wedi gwella apêl weledol yr ardaloedd hyn, gan eu gwneud yn lleoedd mwy deniadol i fod ynddynt yn ogystal â'r manteision amgylcheddol amlwg. Mae hyn yn enghraifft glir o werth cymdeithasol trwy'r cyfraniad at atyniad yr ardal leol.

Mae'r canlynol yn ddyfyniad o flog a gyhoeddwyd gan Goleg Gŵyr:

> *"Yng Ngorseinon, mae myfyrwyr a staff wedi plannu 350 o lasbrennau, a ddarparwyd yn rhad ac am ddim gan Coed Cadw, ar draws dwy ran o'r campws. Bydd ardaloedd a orchuddiwyd yn flaenorol gan laswellt a mieri bellach yn gartref i amrywiaeth o un ar ddeg o rywogaethau o goed gan gynnwys derw, bedw arian a chriafol. Wrth iddynt aeddfedu, bydd y coed hyn yn darparu bwyd a lloches i gannoedd o rywogaethau bywyd gwyllt gan helpu i gynyddu bioamrywiaeth, yn ogystal â gwella ansawdd aer ar draws y campws, creu mannau gwyrdd gwerthfawr a chwarae rhan hanfodol wrth ymdrin â newid hinsawdd.*
>
> *Bydd y gwaith i gynyddu bioamrywiaeth y campysau yn gweld dros 3,000 o rywogaethau blodau gwyllt brodorol yn cael eu plannu yng Ngorseinon a Thycoch eleni. Mae hynny'n golygu y bydd dros 18,000 o fylbiau'n cael eu plannu, gyda phob math yn cael ei ddewis yn benodol gan gadw amodau lleol ac anghenion*

*amgylcheddol mewn golwg. Yn ogystal, mae blychau adar, gwestai chwilod, cartrefi i ddraenogod, llyffantod a brogaod, bellach yn nodweddion parhaol ar y ddau gampws."*

Mae Coleg Penybont wedi dangos ymrwymiad i fod yn goleg cynaliadwy drwy gynnwys cynaliadwyedd yn ei gofrestr risg gorfforaethol fel cofnod ar wahân. Nid ymrwymiad llafar yn unig yw hwn, fodd bynnag, gan eu bod wedi dechrau ar nifer o brosiectau cynaliadwyedd ac yn bwriadu dechrau ar lawer mwy. Enghraifft o brosiect o'r fath yw myfyrwyr coleg yn gweithio mewn partneriaeth â Menter Cadwraeth Natur Cymru. Maent wedi bod yn ymwneud â rheoli a monitro Comin Llantrisant ers 2021, sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gan greu cynefinoedd dymunol ar gyfer gloÿnnod byw a chynnal planhigfeydd o fflora addas. Yn ogystal â'r dysgwyr, mae staff y coleg yn mynd i ymgymryd â hyfforddiant sero net, cynaliadwyedd ac economi gylchol. Bydd hyn yn sicrhau bod staff wedi'u paratoi yn y ffordd orau i annog dysgwyr i ymddwyn mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol ar lefel fyd-eang. Efallai mai'r effaith fwyaf y mae Coleg Penybont wedi'i chael yw'r bartneriaeth â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu modiwlau e-ddysgu Sero Net i Gymru, sydd bellach yn 'fyw' ar 'Hwb' Llywodraeth Cymru. Mae'r coleg hefyd wedi ymrwymo i nifer o bartneriaethau eraill sy'n ymwneud â phrosiectau gydag ymrwymiad pellach i gynaliadwyedd.

### Arwain Ymchwil

Mae llawer o'r colegau AB hefyd yn ymwneud ag ymchwil academaidd, gan gynnwys y rhai sy'n cyflwyno astudiaethau amaethyddol a cheffylau. Daw'r enghraifft hon o Brosiect Partneriaethau Maetholion Fferm Tywi. Mae'n fenter gydweithredol rhwng ffermwyr, ymchwilwyr, ac ymgynghorwyr i wella rheolaeth maetholion a lleihau effeithiau amgylcheddol yn nalgylch Tywi yng Nghymru. Mae'n gwneud defnydd llawn o'r cyfleusterau ymchwil y mae Coleg Sir Gâr wedi'u datblygu yn y Ganolfan Ymchwil Amaethyddiaeth. Nod y prosiect yw cyflawni amcanion cynyddu proffidioldeb a gwytnwch ffermydd trwy optimeiddio effeithlonrwydd y defnydd o faetholion, lleihau colledion maetholion i ddŵr ac aer trwy weithredu arferion rheoli gorau, gwella bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau trwy adfer cynefinoedd a chreu clustogfeydd a meithrin cyfnewid gwybodaeth ac arloesedd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a lledaenu canfyddiadau.

Mae'r prosiect yn cynnwys gweithgareddau amrywiol megis profi pridd a dŵr, cyllidebu maethynnau, storio a thaenu tail, cnydau gorchudd, rheoli glannau afonydd, a threialon maes. Mae'r prosiect hefyd yn darparu hyfforddiant, gweithdai, arddangosiadau, a chylchlythyrau i rannu gwybodaeth a phrofiadau gyda chymunedau ffermio. Mae'r prosiect yn disgwyl cyflwyno buddion lluosog megis gwella perfformiad ffermydd, llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwell ansawdd dŵr, mwy o atafaelu carbon, a gwell amrywiaeth mewn bywyd gwyllt. Gobeithia'r prosiect hefyd gyfrannu at ddatblygu polisi ac ymarfer ar gyfer amaethyddiaeth gynaliadwy yng Nghymru a thu hwnt.

### Casgliad

I gloi, mae'r astudiaethau achos a'r data a gyflwynwyd yn tanlinellu cyfraniadau amlochrog colegau at feithrin gwytnwch yng Nghymru. O arfogi busnesau â sgiliau hanfodol a chofleidio arferion cynaliadwy i ymdrin â phrinder sgiliau a darparu profiadau gwaith ystyrlon, mae'r mentrau hyn yn cyd-fynd â nod "Cymru Gydnerth." Wrth i

sefydliadau addysgol ymgysylltu'n weithredol â diwydiannau, cymunedau a myfyrwyr, maent yn chwarae rhan ganolog wrth ffurfio cymdeithas a all addasu, arloesi a goresgyn heriau. Mae'r gwytnwch sy'n cael ei feithrin drwy'r ymdrechion hyn nid yn unig o fudd i unigolion a busnesau ond mae hefyd yn cyfrannu at gryfder ac addasrwydd cyffredinol cymunedau Cymru.

## WBG3 - Cymru Iachach

Mae ffordd iach o fyw yn hynod o bwysig i unigolion, ond mae gan hyn hefyd ystod eang o fuddion ychwanegol cadarnhaol i gymdeithas. Mae gweithgareddau iechyd corfforol yn allweddol i wella iechyd meddwl, sydd wedi'i gydnabod yn gywir gan y sefydliadau addysg bellach sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae'r adran hon yn nodi'r mentrau a gynhaliwyd gyda'r nod o wella iechyd pobl Cymru. Yn bwysig, mae llawer o'r mentrau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn annog dealltwriaeth o ymddygiad iach. Mae hyn yn sicrhau bod myfyrwyr nid yn unig yn ymddwyn yn iach pan fyddant yn y colegau ond yn cael eu hannog i wneud hynny y tu allan. Mae goblygiadau pellgyrhaeddol i hyn o safbwynt gwerth cymdeithasol, gan ei fod yn gymorth i adeiladu cenhedlaeth o ddysgwyr sy'n byw bywyd iach oherwydd eu bod yn deall y manteision, yn hytrach na byw bywyd iach oherwydd eu bod yn cael eu gorfodi i wneud hynny o fewn cyfyngiadau'r lleoliad addysg.

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg o'r cyfweliadau ymchwil ac roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynnydd sylweddol yn y cymorth lles a gynigir i fyfyrwyr a staff.
- Mabwysiadu amrywiaeth o wahanol gynlluniau cerdded a beicio.
- Datblygu cronfa llesiant i gefnogi mentrau lleol a rhanbarthol.
- Hyrwyddo bwyta'n iach a dod o hyd i fwyd lleol.

Isod, rydym yn archwilio'r mentrau sydd wedi bod ar waith i annog cyfranogiad mewn chwaraeon, yn ogystal â'r rhai sy'n annog diet iach. Yn bwysig, nid yw manteision iechyd meddwl da wedi cael eu hanghofio, ac mae hyn yn chwarae rhan allweddol yn llinyn iechyd a lles y fframwaith gwerth cymdeithasol.

### Chwaraeon Cymru - Gaeaf Llawn Lles

Darparodd y prosiect hwn gan Chwaraeon Cymru £226k i'r sector AB i ddarparu gweithgareddau chwarae, chwaraeon a diwylliannol i blant a phobl ifanc 0-25 oed, gan ymdrin ag effeithiau cymdeithasol, emosiynol a chorfforol y pandemig. Rheolwyd y prosiect gan ColegauCymru fel partner cenedlaethol cydnabyddedig Chwaraeon Cymru ar gyfer y sector AB yng Nghymru. Cynhyrchwyd adroddiad effaith, sy'n manylu ar ganlyniadau'r rhaglen hon. Mae fersiwn llawn yr adroddiad effaith yn nodi i ba raddau y bu'r rhaglen yn llwyddiannus, gan werthuso nifer o fetrigau y cytunwyd y byddai llwyddiant y rhaglen yn cael ei fesur yn eu herbyn. I grynhoi canfyddiadau'r adroddiad, mae'r rhaglen hon wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae tystiolaeth i ddangos y bu gwelliannau yng nghanlyniadau iechyd y cyfranogwyr a allai hefyd o bosibl fod wedi arwain at newid diwylliannol tuag at ffordd iachach o fyw. Fel y crybwyllwyd yn y cyflwyniad i'r paragraff hwn, y symudiad diwylliannol tuag at ffordd iach o fyw fydd fwyaf tebygol o sicrhau'r canlyniadau iechyd hirdymor a ddymunir.

Gosododd Chwaraeon Cymru nifer o dargedau ar ddechrau'r prosiect hwn, y gellid mesur llwyddiant y prosiect yn eu herbyn. Cyflwynir yn y tabl isod y metrigau y penderfynwyd arnynt, yn ogystal â'u cyflawniad o gymharu â'r targed a osodwyd. Fel sy'n amlwg o'r tabl, mae nifer o feysydd lle mae'r targed wedi'i gyrraedd neu lle rhagorwyd arno. Yn nodedig,

mae cyflwyno 1052 o gymharu â'r targed o 500 o ran uwchsgilio dysgwyr chwaraeon yn gyflawniad arwyddocaol iawn.

| Llinyn y prosiect | Targed | Cyflwyno |
|---|---|---|
| **Uwchsgilio dysgwyr Chwaraeon** | 500* | 1052* |
| **Gweithgareddau gwyliau yng nghyfleusterau'r coleg** | 60 diwrnod (10 campws) | 50 |
| **Uwchsgilio dysgwyr Gofal Plant** | 500 | 269 |
| **Gweithgaredd Blynyddoedd Cynnar** | 9 diwrnod | 6 diwrnod |
| **Diwrnodau awyr agored Lefel 1 a 2** | 24 diwrnod / teithiau | 25 diwrnod |
| **Diwrnodau awyr agored ILS/ESOL** | 48 diwrnod / taith | 47 diwrnod |
| **Her Awyr Agored WOW** | 12 coleg<br>144 o ddysgwyr<br>20 o wirfoddolwyr | 12 coleg<br>120 yn cymryd rhan<br>20 o wirfoddolwyr |
| **Prynu camerâu GoPro o danwariant ar y prosiect** | 13 Campws y Coleg | |

### Strategaeth Lles Actif ColegauCymru

Mae'r strategaeth hon yn deillio o'r ffaith bod y cysylltiad rhwng gweithgaredd corfforol a lles meddyliol yn gryf ac wedi'i ymchwilio'n dda. Nod y strategaeth hon yw hybu lles corfforol, meddyliol ac emosiynol trwy gynyddu mynediad at weithgarwch corfforol ers 2014. Crëwyd rolau staff newydd i hwyluso hyn, a rhoddwyd cyfle i golegau ddatblygu prosiectau newydd yn ogystal â chefnogi rhai presennol. Mae'r fenter hon yn cefnogi dysgwyr a allai fod yn llai egnïol neu'n llai tebygol o gael profiad rheolaidd o weithgareddau awyr agored. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr yn rhoi cynnig ar weithgaredd awyr agored am y tro cyntaf, ac mae gan lawer o'r rhain anghenion dysgu ychwanegol hefyd. Y syniad y tu ôl i hyn yw mai ymagwedd gyfannol at iechyd a lles yw'r dull gorau, gan gwmpasu iechyd meddwl a chorfforol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.

### Coleg Caerdydd a'r Fro – Pwyllgor Iechyd a Lles

Sefydlodd Coleg Caerdydd a'r Fro y Pwyllgor Iechyd a Lles ym mis Mehefin 2021, penderfyniad a ddeilliodd o drafodaethau mewn digwyddiad Strategaeth Llywodraethwyr cyn Covid yn 2019. Yr amcan oedd integreiddio 'Lles' i nodau strategol presennol y coleg, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Cyflymodd dyfodiad Covid yr angen am hyn, gan arwain at weithredu nifer o fesurau iechyd a lles i staff a dysgwyr i wrthweithio effeithiau'r pandemig. Mae'r mesurau hyn hefyd yn ganllaw ar gyfer iechyd a lles staff a dysgwyr yn y dyfodol.

Am y tro cyntaf i Gorff Llywodraethu'r coleg, cafodd un oedd yn gweithio fel Meddyg Teulu ei recriwtio fel Aelod Cyfetholedig ar y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnwys Llywodraethwyr Staff a Myfyrwyr, yn ogystal ag arbenigwyr o sefydliadau eraill megis y Principality, Metrobank, a Chymorth i Fenywod. Mae'r Pwyllgor wedi gweld twf sylweddol,

ac eleni, cyflawnodd nod strategol drwy gynnal cyfarfod dwyieithog hybrid (gyda chyfieithu ar y pryd) am y tro cyntaf.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw i ystod eang o bynciau (fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl) ac mae'n cynnwys arbenigwyr ym meysydd ADY, y Black Leadership Group, Iechyd a Diogelwch, AD, Cwricwlwm Cymru, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a Chynaliadwyedd. Mae'r arbenigwyr hyn yn diweddaru'r Llywodraethwyr yn rheolaidd yn eu meysydd priodol, gan ddarparu craffu, arweiniad a chefnogaeth.

### Mentrau cerdded Coleg Penybont

Datblygodd a gosododd grŵp o 8 aelod staff lwybrau cerdded ag arwyddbyst ar gyfer staff a dysgwyr ar gampws Pencoed a llwybr o gampws Penybont i gefnogi gweithgarwch corfforol a lles meddyliol. Ers ei osod mae aelodau staff a dysgwyr wedi defnyddio'r llwybrau yn ystod amser egwyl neu wedi trefnu teithiau cerdded i ddysgwyr. Hefyd trefnwyd 8 Taith Gerdded Lles y tymor hwn lle mae myfyrwyr a staff wedi cerdded fel grŵp i annog gweithgarwch corfforol yn ystod y diwrnod gwaith. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach dan faner Bod yn Egnïol drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae Coleg Penybont wedi dal lefel platinwm Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru ers sawl blwyddyn - mae rhan o'r gydnabyddiaeth hon ar gyfer iechyd, lles a chynaliadwyedd rhagorol yn gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allanol gan gynnwys cerdded. Mae'r cymorth llesiant yn rhan bwysig o'r cynnig gwerth cyflogaeth.

### Mentrau bwyd iach Coleg Penybont

Mae Coleg Penybont wedi cymryd rhan mewn nifer o fentrau a gweithgareddau i annog eu dysgwyr i fwyta'n iachach. O fewn y ffreuturau, cyhoeddwyd Canllaw Bwyta'n Iach ac mae arwyddion i dynnu sylw at hybu dewisiadau bwyta'n iach a chodi ymwybyddiaeth o ddiet cytbwys. Yn ogystal, mae opsiynau iach ar gael yn siopau'r ffreutur. Mae'r coleg hefyd yn darparu brecwast am ddim i staff a myfyrwyr, yn ogystal â ffrwythau ffres am ddim i staff a myfyrwyr. Mae yna hefyd ddigon o ddŵr yfed ar gael i annog pobl i yfed mwy o ddŵr. Yn amlwg o hyn mae Coleg Penybont yn rhoi hwb i bobl newid eu hymddygiad i annog bwyta'n iach er mwyn hyrwyddo arferion hirdymor da. O ganlyniad, mae myfyrwyr bellach yn fwy ymwybodol o'r opsiynau iachus sydd ar gael iddynt ac mae'n ymddangos eu bod yn manteisio'n helaeth ar y brecwastau a'r ffrwythau am ddim, gan fod poblogrwydd y cynlluniau hyn wedi cynyddu ers eu sefydlu.

### Casgliad

I gloi, mae'r bennod hon yn tanlinellu ymrwymiad sefydliadau Addysg Bellach (AB) i Nod Llesiant 3: "Cymru Iachach." Mae'r mentrau a amlinellwyd yn pwysleisio'r cysylltiad annatod rhwng gweithgaredd corfforol, lles meddyliol, a'r allanoldebau cadarnhaol i gymdeithas. Mae'r rhaglenni hyn yn galluogi pobl i gymryd rhan weithredol mewn ffordd iach o fyw, a datblygu arferion gydol oes gobeithio sydd o fudd i'w lles corfforol a meddyliol.

Mae'r ffocws strategol ar iechyd corfforol a meddyliol yn cyd-fynd ag ymagwedd gyfannol, gan gyfrannu at y canlyniadau iechyd hirdymor sy'n ddymunol i gymdeithas. Dengys mentrau penodol ar lefel coleg ymdrechion cynhwysfawr i integreiddio lles yn y lleoliad addysgol. Mae'r ymdrechion hyn nid yn unig yn creu buddion uniongyrchol i staff a

dysgwyr ond hefyd yn meithrin symudiad diwylliannol tuag at ffyrdd iachach o fyw, gan ddangos rôl weithredol y sector wrth wireddu'r weledigaeth o Gymru iachach.

# WBG4 - Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Mae ColegauCymru a'i holl aelod-sefydliadau yn cydnabod y rôl sylweddol sydd ganddynt i sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal:

> *"Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)."*

Mae ein hymchwil wedi amlygu bod colegau AB yn darparu gwerth cymdeithasol, mewn perthynas â chydraddoldeb, drwy nifer o wahanol ddulliau ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Llunio cynlluniau cydraddoldeb strategol sy'n gweithredu fel sail ar gyfer gwreiddio diwylliant o gydraddoldeb, lle caiff pawb eu trin yn gyfartal.
- Datblygu 'cynnig dysgu' i fyfyrwyr o bob lefel academaidd ac o gefndiroedd ethnig gwahanol, gan gynnwys gweithio'n agos gyda ffoaduriaid a mudwyr i gyflwyno darpariaeth ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill).
- Gweithio gyda grwpiau nas gwasanaethir yn ddigonol a'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur a dod o hyd i lwybrau i'w cefnogi i gyflogaeth neu yn ôl i gyflogaeth.
- Gweithio gyda phobl ifanc 14 i 16 oed sydd wedi ymddieithrio a darparu cyfleoedd prentisiaeth iddynt.
- Gweithredu rhaglenni cymorth dysgu i deuluoedd.
- Mabwysiadu strwythurau ac arferion Llywodraethu sy'n llywio cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym wedi cael nifer sylweddol o astudiaethau achos yn ymwneud â chydraddoldeb ac mae enghreifftiau isod yn rhoi trosolwg o rai o'r rhaglenni a'r dulliau arloesol y mae'r sector AB yn eu rhoi ar waith yng Nghymru.

### Cymunedau Amrywiol

Darparodd Coleg Caerdydd a'r Fro fanylion y gwaith y mae'n ei wneud mewn perthynas â Thegwch, Parch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu (FREDIE). O ran eu carfan o fyfyrwyr maent yn esbonio'r cyd-destun lleol:

- Mae ganddyn nhw 33,596 o ddysgwyr
- Mae Rhanbarth Caerdydd yn cynrychioli 48% o boblogaeth Cymru
- Mae'n cynhyrchu 51% o GVA Cymru
- Cymuned amrywiol – cyfoeth mawr a llawer o dlodi
- Hanner eu dysgwyr o'r rhanbarthau mwyaf difreintiedig yng Nghymru
- Mae 32% yn byw mewn cartrefi di-waith
- 31% o Gymunedau Lleiafrifoedd Ethnig Prydeinig
- Dros 50 o genhedloedd.

Ychwanegant:

> *"Mae cynhwysiant yn ganolog i'n gweledigaeth a'n gwerthoedd, mae wedi'i wreiddio yn ein gwaith*
>
> - *Mae yna ffocws yn y coleg cyfan ar bwysigrwydd cynhwysiant*

- *Rydym yn cefnogi dysgwyr a staff i ddeall pwysigrwydd cynhwysiant*
- *Sut rydym yn ymgysylltu'n weithredol â'n cymunedau i gael effaith gadarnhaol – dylanwad ehangach.*
- *Sut rydym yn datblygu ein cwricwlwm a'n haddysgu a dysgu i hybu cyfle cyfartal.*
- *Sut rydym yn cefnogi ac yn datblygu ein staff a'n dysgwyr, gan ddathlu a gwella FREDIE."*

Gweledigaeth a Gwerthoedd y Coleg yw Bod yn Ysbrydoledig, Cynhwysol, Dylanwadol ac:

- Ymateb i anghenion ein cymunedau
- Pontio'r bwlch symudedd cymdeithasol
- Datblygu darpariaeth ar gyfer pob lefel a gallu
- Codi dyheadau, a darparu'r cyfleoedd gorau oll i ddysgwyr gyflawni eu potensial
- Ymdrin â diffyg sgiliau'r boblogaeth leol a'r cyfleoedd cyflogaeth cynyddol yn y rhanbarth
- Ein her yw trechu tlodi ar draws y rhanbarth a chefnogi cymunedau llewyrchus.
- Gweithio mewn ffyrdd arloesol

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi symud o'r 7fed i'r 3ydd safle ym Mynegai 100 Cyflogwr Mwyaf Cynhwysol y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Amrywiaeth. Mae'r cyflawniad yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y Coleg i wreiddio Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu (FREDIE).

Hefyd yng Nghaerdydd mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant, sy'n goleg amrywiol o safbwynt cymdeithasol ac ethnig sy'n darparu gwerth cymdeithasol sylweddol, mewn amrywiol ffyrdd, gan gyfrannu at gymdeithas fwy cynhwysol a theg. Gyda 49% o fyfyrwyr o ddegraddau yn y categori difreintiedig, 20% o ddysgwyr o'r degradd mwyaf difreintiedig (Degradd 1) a 55% o fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig, mae Coleg Dewi Sant yn hyrwyddo amgylchedd dysgu cynhwysol lle mae myfyrwyr o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol yn rhyngweithio a dysgu gyda'i gilydd. Mae bod yn agored i safbwyntiau amrywiol yn gwella dealltwriaeth myfyrwyr o ddiwylliannau amrywiol a chyd-destunau economaidd-gymdeithasol, gan feithrin goddefgarwch, parch at ei gilydd a hyrwyddo ymdeimlad o ddinasyddiaeth fyd-eang.

### Addysg Oedolion Cymru

Yn yr enghraifft gyntaf hon, rydym yn cyflwyno trosolwg sefydliadol o Addysg Oedolion Cymru a'r gwaith y maent yn ei wneud i gefnogi ein dysgwyr sy'n oedolion ledled Cymru. Gwyddom o araith y Gweinidog ym mis Ebrill 2023, am bwysigrwydd mynediad at gyfleoedd dysgu gydol oes:

> *"Dw i eisiau i Gymru fod yn genedl ail gyfle ym myd addysg. Cenedl lle nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu. Lle mae gan bobl yr hyder, y cymhelliant a'r modd i fynd yn ôl i fyd addysg i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithio a ffynnu ar unrhyw adeg".*

Wrth geisio sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal, mae rôl addysg oedolion a dysgu yn y gymuned yn dod i'r amlwg fel rhan hanfodol o'r gwaith o chwalu rhwystrau, hyrwyddo

cynhwysiant, a meithrin gwerth cymdeithasol. Mae'r bennod hon yn ymchwilio i fentrau Addysg Oedolion Cymru (ALW), darparwr mwyaf Cymru ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Mae ffocws strategol Addysg Oedolion Cymru ar raglenni dysgu yn y gymuned wedi'u teilwra yn cyd-fynd yn  rhwydd â'r nod llesiant trosfwaol "Cymru sy'n Fwy Cyfartal." Mae'r nod hwn yn adlewyrchu'r ymrwymiad i ymdrin â gwahaniaethau, hyrwyddo amrywiaeth, a sicrhau bod cyfleoedd addysgol yn hygyrch i bawb, waeth beth fo'u hoedran, cefndir neu allu.

Mae Addysg Oedolion Cymru, darparwr mwyaf Cymru ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned (CBAL), yn chwarae rhan ganolog mewn meithrin gwerth cymdeithasol trwy ei ymrwymiad i ehangu cyfranogiad, yn ogystal â rolau sy'n hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol, a datblygu sgiliau. Mae'r astudiaeth achos hon yn ymchwilio i'r camau gweithredu a'r mentrau penodol a gyflawnwyd gan Addysg Oedolion Cymru i gyflawni ei amcanion o ran gwerth cymdeithasol:

### Amrywiaeth a Goddefgarwch:

Mae Addysg Oedolion Cymru yn hyrwyddo amrywiaeth a goddefgarwch, sydd o fudd i fywyd cymdeithasol a chymunedol. Mae wedi dangos ymrwymiad i ymgysylltu â demograffeg amrywiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr hŷn a'r rheini o ardaloedd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Drwy fynd ati'n frwd i gyrraedd y grwpiau hyn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, mae Addysg Oedolion Cymru yn ymdrin ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac yn grymuso unigolion a allai wynebu anfanteision lluosog. Gan ddeall y rhwystrau y mae darpar ddysgwyr yn eu hwynebu, mae Addysg Oedolion Cymru wedi rhoi strategaethau wedi'u targedu ar waith i ddatgymalu neu leihau'r rhwystrau hyn. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd dysgu hyblyg ar adegau a lleoliadau cyfleus, ymdrin â chyfyngiadau ariannol, a chroesawu cynhwysiant digidol i sicrhau hygyrchedd ehangach.

Gan gydnabod pwysigrwydd sgiliau hanfodol, mae Addysg Oedolion Cymru yn cyfrannu'n weithredol at feysydd fel ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) a darparu sgiliau hanfodol. Drwy wneud hynny, mae Addysg Oedolion Cymru yn cefnogi integreiddio economaidd a chymdeithasol, gan gyfrannu at les cyffredinol dysgwyr a'u cymunedau.

Ymhellach, mae Addysg Oedolion Cymru yn cyfrannu at ddysgu nifer o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021/2022 yn dangos bod 9.4% o ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (heb gynnwys lleiafrifoedd Gwyn). Roedd y gyfran hon wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2012/13, ar wahân i ostyngiad yn 2020/21 (a oedd yn debygol o fod yn anomaledd oedd yn gysylltiedig â Covid).

Un o'r rhesymau am lwyddiant Addysg Oedolion Cymru yw ei allu i ddylunio a gweithredu rhaglenni dysgu wedi'u teilwra sy'n cyd-fynd ag anghenion a dyheadau'r sylfaen amrywiol o ddysgwyr. Mae'r sefydliad yn cydnabod nad yw un maint yn addas i bawb ac yn teilwra ei gynigion i weddu i ofynion dysgwyr, p'un a ydynt yn chwilio am sgiliau hanfodol, hyfedredd iaith, neu hyfforddiant galwedigaethol.

Mae Addysg Oedolion Cymru yn mabwysiadu ymagwedd gyfannol at ddysgu, gan gydnabod bod y buddion yn ymestyn y tu hwnt i ganlyniadau mesuradwy. Mae'r sefydliad yn cydnabod pŵer trawsnewidiol addysg oedolion wrth feithrin llawenydd, rhyfeddod a balchder, gan gyfrannu at les cyffredinol ac ymdeimlad o bwrpas.

I gloi, mae ffocws strategol Addysg Oedolion Cymru ar raglenni dysgu yn y gymuned wedi'u teilwra, ynghyd ag ymdrechion wedi'u targedu i liniaru rhwystrau, yn ei osod fel sbardun allweddol i werth cymdeithasol yng Nghymru. Drwy ymgysylltu'n weithredol â demograffeg amrywiol, mae Addysg Oedolion Cymru nid yn unig yn cyfrannu at ddatblygiad unigol ond hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth adeiladu cymdeithas fwy cynhwysol a bywiog.

**Anabledd:**

Fel darparwr mwyaf Cymru o ran dysgu oedolion yn y gymuned, mae Addysg Oedolion Cymru yn ymgysylltu â nifer o bobl ag anableddau yn ei addysg. Mae hyn yn caniatáu cyfranogiad ehangach gan grwpiau sy'n aml yn cael eu tangynrychioli.

Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021/22 yn dangos bod 12.3% o ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach wedi nodi bod ganddynt "anabledd". Mae'r gyfran hon wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf, ar ôl bod yn cynyddu'n gyson ers 2013/14. Mae'n bwysig felly bod Addysg Oedolion Cymru wedi ymrwymo i ganiatáu amgylchedd cynhwysol i bob oedolyn, gan gynnwys y rhai ag anabledd.

**Ymgysylltiad Cymdeithasol ac Integreiddio:**

Dywed Iolo, 'Hoffwn aros yn lleol wrth ddechrau fy ngwaith er mwyn gallu parhau i siarad Cymraeg.' Wrth siarad Cymraeg, dywed, 'Rwy'n cael y gorau o'r ddau fyd, rwy'n teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael mwy o gyfleoedd trwy ddefnyddio'r iaith. Rwy'n teimlo'n falch iawn o siarad Cymraeg.'

Yn ogystal â derbyn ei holl addysg trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ei gwrs yn y Coleg a defnyddio'r Gymraeg yn y Coleg, mae Iolo yn defnyddio'r Gymraeg gartref ac yn gymdeithasol. Nodwyd bod y cyfle i ddefnyddio ei Gymraeg yn y Coleg wedi hwyluso'r pontio rhwng ysgol a choleg ac wedi gwneud iddo deimlo'n gartrefol.

Mae Iolo yn edrych ymlaen at ddefnyddio ei ddwyieithrwydd i wneud i'w gwsmeriaid deimlo'r un ymdeimlad o fod gartref ag y teimlai ef wrth glywed Cymraeg yn y Coleg.

### Enghraifft 3

Fy enw i yw Nimue, ac rwyf wedi bod yn mynychu Coleg Cambria ers mis Medi 2023. Rwy'n astudio Lefel A mewn Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Gwareiddiad Clasurol, a Bagloriaeth Cymru. Fy nyhead o ran gyrfa yw dod yn hanesydd, a chredaf y bydd y Gymraeg yn fuddiol gan ei fod yn gwella fy nghyfleoedd i ddod o hyd i waith yng Nghymru. Dwi'n ystyried aros mewn Prifysgol yng Nghymru ac o bosib gweithio yng Nghymru achos mae mwy o gyfleoedd, a dwi'n gallu siarad Cymraeg. Yn ogystal, dwi'n mwynhau byw mewn cymdeithas Gymraeg.

Hyd at ddyddiau coleg, roeddwn wedi derbyn y mwyafrif o fy addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a thros y blynyddoedd, rwyf wedi mwynhau defnyddio'r iaith yn fy addysg. Mae fy rhieni yn siarad Saesneg yn aml a dwi'n helpu i gryfhau eu Cymraeg nhw. I mi, mae'r Gymraeg yn fodd i ddangos fy malchder o fod yn Gymraes ac hefyd i ddangos fy ymrwymiad i'r cenedlaethau o'm blaen, a frwydrodd i warchod yr iaith ac a geisiodd wneud iddi ffynnu. Rwy'n teimlo, trwy ddefnyddio'r iaith, ein bod yn cadw ein hanes yn fyw. Rwy'n gweld y profiadau Cymraeg yng Ngholeg Cambria yn hynod werthfawr, rwy'n dal i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Fagloriaeth, ac rwy'n glir bod gennyf yr hawl i wneud fy ngwaith yn y Gymraeg hefyd.

### Casgliad

Mae WBG6 yn ymchwilio i rôl ganolog colegau Addysg Bellach (AB) Cymru wrth hyrwyddo bywiogrwydd diwylliannol a'r iaith Gymraeg lewyrchus. Mae'r sefydliadau hyn yn cyfrannu at weithgareddau diwylliannol amrywiol, yn amrywio o brosiectau a pherfformiadau artistig i brosiectau cydweithredol sy'n meithrin diwydiannau creadigol a chynhyrchu rhaglenni teledu yng Nghymru.

Mae'r bennod hefyd yn pwysleisio'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn gweithgareddau dysgu, wedi'i ysgogi gan strategaethau a mentrau colegau AB. Mae'n amlwg fod y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn yn cael effeithiau diriaethol ar fyfyrwyr, gyda sgiliau y gallant eu defnyddio nid yn unig mewn gyrfaoedd, ond hefyd ymrwymiad diwylliannol, gan bwysleisio ar y cyd gyfraniadau cynhwysfawr colegau AB at les cymunedol.

# WBG7 - Cymru sy’n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang

Mae'r bennod hon yn nodi'r ffyrdd y mae sefydliadau AB Cymru yn hwyluso'r nod llesiant o 'Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'. Mae nifer o astudiaethau achos sy’n dangos ymrwymiad colegau i gyfrannu mewn ffordd ystyrlon at nodau fel sero net, gwelliannau i fioamrywiaeth a Chymru sy’n edrych tuag allan yn rhyngwladol, a thrwy hynny yn cyflawni canlyniadau cryf o ran gwerth cymdeithasol.

Trwy ddadansoddi astudiaethau achos a data, rydym yn dangos bod colegau unigol yn cychwyn ar brosiectau sy'n hyrwyddo'r agenda gwerth cymdeithasol. Mae hyn yn dyst i'r gydnabyddiaeth bod angen gweithredu unigol yn y maes hwn i gyfrannu at y nod ehangach o fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang. At hynny, rydym yn dangos trwy ddata bod colegau, ar lefel gyfanredol, yn cymryd rhan mewn cynlluniau sy'n cyfrannu'n sylweddol at y nod hwn.

Bydd rhan gyntaf y bennod hon yn rhoi trosolwg o’r gwaith sylweddol sy’n cael ei wneud o ran cynaliadwyedd a’r daith at sero net. Themâu allweddol y gweithgareddau a ddaeth i’r amlwg oedd:

- Datblygu rhaglenni dysgu/codi ymwybyddiaeth, fel y Rhaglen Dyfodol Cynaliadwy, ar gyfer myfyrwyr a staff
- Datblygu rhaglenni, prosiectau a phartneriaethau newydd i ymdrin â 'Bylchau Sgiliau Gwyrdd'
- Gweithredu strategaethau amgylcheddol a monitro data perfformiad ac allyriadau
- Cofleidio technolegau ynni adnewyddadwy fel solar, gwynt, pympiau gwres a biomas a lleihau'r defnydd o ynni. Bu rhai colegau AB yn trafod sut y maent yn lleihau’r defnydd o ynni allanol, er enghraifft, dywedodd Coleg Sir Benfro ei fod wedi lleihau’r defnydd o ynni allanol hyd yma 33%.
- Derbyn gwobrau ac achrediad am eu gwaith, megis gwobr *Green Gown* a dyfarniadau Lefel 5 y Ddraig Werdd
- Maent hefyd yn meddwl am y dyfodol ac yn ceisio sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn cael eu hadeiladu i safonau sero net.

Mae cysylltiadau hefyd â’r prosiectau rydym wedi’u nodi yn Nod Llesiant 2 'Cymru Gydnerth’.

### Dull Cyfannol

Mae’r isod yn ddetholiad o flog a gyhoeddwyd gan Goleg Gŵyr sy’n rhoi trosolwg o’r dull gweithredu a’r mentrau y mae’r sector yn ymgymryd â nhw a’r arferion sy’n cael eu gwreiddio:

> “*Mae ein holl gampysau wedi cael eu hôl-osod gyda goleuadau LED ynni-effeithlon, mae biniau ailgylchu ar gael ym mhob rhan o’n hadeiladau, rydym yn cynaeafu dŵr glaw i ddyfrhau ein tiroedd, a Gorseinon yw’r campws cyntaf i osod paneli solar. Mae'r rhain a buddsoddiadau ac arferion tebyg eraill eisoes wedi ein galluogi i sicrhau achrediad Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, sy'n golygu ein bod wedi cael ein cydnabod am ein gwelliant amgylcheddol ymroddedig parhaus ar y campws - ond megis dechrau yw hyn.*

*Rhai o'r prosiectau amgylcheddol a chynaliadwyedd mwyaf gwerth chweil yng Ngholeg Gŵyr Abertawe yw'r rhai sy'n gweld myfyrwyr a staff yn cydweithio i wneud newidiadau gwirioneddol a fydd o fudd i'n cymuned. Yn gynharach eleni, creodd ein myfyrwyr tirlunio ardd goffa arbennig ar Gampws Tycoch. Diolch i gefnogaeth Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru, rydym hefyd yn gweld myfyrwyr yn symud ymlaen â phrosiect hirdymor llawer mwy i greu gardd lles a synhwyrau, a fydd yn cynnwys rhywogaethau brodorol a phlanhigion a ddewiswyd yn benodol i annog peillwyr i gynorthwyo bioamrywiaeth.*

*Wrth gwrs, dim ond un rhan o'n hymdrechion o ran cynaliadwyedd yw creu adnoddau newydd sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd. Mae rheoli gwastraff yn gyfrifol a, lle bynnag y bo modd, lleihau gwastraff yn allweddol i'n hymdrechion i leihau ein heffaith amgylcheddol a'n hôl troed carbon.*

*Mae cydbwyso'r angen i sicrhau bod gan ein myfyrwyr fynediad i'r dechnoleg ddiweddaraf, wrth gynnal ein hymrwymiad i leihau gwastraff, yn her arbennig. Fel rhan o'n haddewid i leihau faint o wastraff yr ydym yn ei anfon i safleoedd tirlenwi, mae tîm TG Coleg Gŵyr Abertawe wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'n cyflenwyr technoleg i sicrhau bod 100% o'n hoffer TG sydd wedi torri neu dros ben yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu. I roi hynny mewn persbectif, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r tîm wedi trefnu casgliadau ar gyfer bron i 12 tunnell o offer. Mae hynny'n cyfateb i lond un bws deulawr o offer. O ganlyniad, mae 85% o'r dechnoleg honno wedi'i hadnewyddu a'i hailddefnyddio, gyda'r 15% sy'n weddill yn cael ei dorri i lawr ar gyfer ei ailgylchu. Ac, yn y dyfodol agos, bydd staff a myfyrwyr yn gallu ailgylchu offer TG a llyfrau personol, nad oes eu heisiau ac sydd wedi torri trwy gyflenwyr y Coleg, yn rhad ac am ddim.*

*Bydd mentrau amgylcheddol pellach yn y Coleg yn ein gweld yn symud tuag at ein targed o ddod yn sero net erbyn 2030. Bydd y dilyniant hwnnw'n golygu y byddwn yn rhoi diwedd ar werthu poteli dŵr plastig ar draws pob campws ac yn cyflwyno cynlluniau rhannu trafnidiaeth ar draws holl safleoedd y Coleg. Bydd myfyrwyr hefyd yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau amgylcheddol a chynaliadwyedd gan gynnwys gweithdai ailgylchu, atgyweirio ac ailddefnyddio, glanhau traethau, wythnosau dim gwastraff, sgyrsiau am ffasiwn cynaliadwy, a chyfleoedd i ymweld ag amrywiaeth o brosiectau cynaliadwyedd".*

Mae Coleg Penybont hefyd yn mabwysiadu ymagwedd gyfannol at gynaliadwyedd. Mae'r Coleg yn cynhyrchu cylchlythyr cynaliadwyedd rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr a staff am y gwaith y mae'n ei wneud o ran cynaliadwyedd ac yn eu hannog i rannu, trafod, meddwl yn arloesol ac yn greadigol ac yn anad dim cymryd camau cadarnhaol a dilys i helpu i ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd a natur, materion yn ymwneud â dinasyddiaeth, heddwch, partneriaeth a chydweithio.

Mae'r cylchlythyr diweddaraf yn nodi sut y derbyniodd y coleg Wobr 'Ysbrydoli Mannau Dysgu' ar gyfer yr Academi STEAM a adeiladwyd ar Gampws Pencoed yn 2021. Mae'r cyfleuster hwn sydd o'r radd flaenaf yn cael ei gydnabod fel nodwedd bwysig yn strategaeth 'Sero erbyn 2030' y Coleg. Enillodd y datblygiad hefyd un o'r *Green Gown Awards* am ei 'weledigaeth ryfeddol' yn 2022.

*“Mae ymgorfforі cynaliadwyedd yn ein cwricwlwm yn hanfodol ar gyfer paratoi dysgwyr ar gyfer dyfodol a nodweddir gan heriau byd-eang, gofynion sy’n esblygu ar y gweithlu, dinasyddiaeth gyfrifol, meddwl rhyngddisgyblaethol, disgwyliadau rhanddeiliaid, arloesedd, buddion economaidd, ac ystyriaethau moesegol. Mae’n rhoi’r wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen ar ein cymuned ddysgu i gyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy a gwydn”.*

*Is-bennaeth*

Yn ei ddatganiad polisi cynaliadwyedd ehangach mae’r coleg yn datgan:

*“Mae Coleg Penybont yn gwbl ymrwymedig i addysg ar gyfer cynaliadwyedd, diogelu iechyd a lles pobl, ei stâd, y byd naturiol ac atal llygredd o bob math a byddwn yn gwella system reoli HSE yn barhaus i gefnogi'r ymrwymiad hwn. Mae hyn yn cael cefnogaeth lawn y Corff Llywodraethol, yr Uwch Dîm Arwain (UDA) a’r Pennaeth sy’n gyfrifol yn y pen draw am ei weithrediad a sicrhau ei fod yn un o brif flaenoriaethau pob aelod staff a myfyriwr.*

*Wrth symud ymlaen byddwn yn:*

- *Arddangos arweinyddiaeth anhygoel a datblygu arweinwyr rhyfeddol ledled y sefydliad i’n helpu i gyflawni ein nodau addysgol, iechyd, lles, diogelwch a’r rhai sy’n ymwneud â’r byd naturiol*
- *Sicrhau bod gwneud penderfyniadau, ar bob lefel, yn ystyried costau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel rhan o feddylfryd twf*
- *Gweithio’n ddiflino i gwtogi allyriadau carbon trwy ein Strategaeth Sero erbyn 2030*
- *Cynnal lefel Platinwm y Safon Iechyd Gorfforaethol ar gyfer iechyd, lles a diogelwch*
- *Adrodd ar effeithiau ein huchelgeisiau i fod yn sefydliad eithriadol i’r Cenhedloedd Unedig fel rhan o Gytundeb y Nodau Datblygiad Cynaliadwy*
- *Sicrhau bod cyfrifoldebau am sicrhau diogelwch, lles, iechyd a chynaliadwyedd o safon fyd-eang yn y coleg yn cael eu neilltuo, eu derbyn a’u cyflawni’n effeithiol ar bob lefel*
- *Gosod targedau penodol ar gyfer gwella iechyd cyffredinol, lles, iechyd meddwl, diogelwch a’r byd naturiol o fewn ein Strategaeth Datblygu Cynaliadwy sydd ar gael yn gyhoeddus*
- *Parhau i wreiddio a datblygu Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) o fewn y sefydliad a sicrhau bod pob aelod staff, ar bob lefel, yn cael ei gefnogi i’n helpu i gyflawni ein nodau a’n huchelgeisiau ar y cyd*
- *Sicrhau ein bod yn dangos didwylledd ac eglurder mewn adroddiadau sy’n wynebu’r cyhoedd.”*

### Gweithio ar y Cyd i Gyflawni Net Sero

Mae’r enghraifft hon gan Grŵp Colegau NPTC, yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio i gyflawni ein targedau sero net uchelgeisiol:

Mae Grŵp Colegau NPTC wedi lansio Academi Sero Net mewn ymateb i dargedau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i gyflawni Net Sero erbyn 2050. Mae'r Academi yn gydweithrediad unigryw rhwng y coleg, arbenigwyr diwydiant, a chymdeithasau masnach, gyda'r nod o ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo i economi sero net.

Mae'r Academi yn cynnig gwell cyfleoedd hyfforddi ac yn gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu hyfforddiant sy'n bodloni anghenion diwydiant ac sy'n hygyrch i ddysgwyr. Mae’n cael ei goruchwylio gan Fwrdd Cynghori strategol, sy’n cynnwys arbenigwyr blaenllaw o sectorau sydd ar flaen y gad o ran sgiliau sero net, gan gynnwys adeiladu, ynni, a pheirianneg, yn ogystal â chynrychiolwyr o’r byd academaidd. Mae'r Bwrdd yn darparu cyfeiriad strategol ac arbenigedd i sicrhau bod gan y gweithlu a chwmnïau'r sgiliau angenrheidiol. Mae'r sgiliau sero net hyn yn hanfodol i ddarparu gwerth cymdeithasol, o safbwynt cyfalaf dynol a hyfforddiant, ond hefyd, o safbwynt amgylcheddol oherwydd natur y sgiliau a addysgir.

Mae gwefan Net Zero Academy yn borth i ddysgwyr, busnesau a sefydliadau eraill gael mynediad at hyfforddiant, newyddion, deddfwriaeth a chyngor perthnasol. Mae’n cynnig cymorth drwy Gynghorydd Ymgysylltu Busnes, yn gweithio gyda chyflogwyr i nodi gofynion datblygu, yn cyflwyno opsiynau ar gyfer uwchsgilio’r gweithlu, yn darparu atebion hyfforddi pwrpasol, ac yn dod o hyd i gyllid ar gyfer hyfforddiant.

### Rhyngwladoli

Nesaf, rydym yn archwilio’r rhaglen waith ryngwladol y mae’r Colegau AB a ColegauCymru wedi bod yn rhan ohoni a’r gwerth cymdeithasol sy’n cael ei gynhyrchu drwy eu harchwiliad a’r twf o gyfleoedd rhyngwladol. O fewn ei Strategaeth Ryngwladol mae ColegauCymru wedi amlinellu ei weledigaeth ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol o dan nodau eang, y mae gan bob un ohonynt y potensial i gyfrannu at werth cymdeithasol, yn ogystal ag economaidd, sef:

- Cyfoethogi a gwella profiadau addysgu a dysgu
- Codi dyheadau dysgwyr ac ehangu eu gorwelion
- Llywio arfer broffesiynol a gwella'r ddarpariaeth
- Codi proffil gwaith rhyngwladol a wneir mewn AB
- Rhannu arfer gorau, gweithio mewn partneriaeth a datblygiad masnachol
- Cysoni â strategaethau rhyngwladol ehangach a datblygu partneriaethau pwrpasol
- Dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru i lywio profiad y dysgwr a datblygiad busnes yn y dyfodol.

Mae pob un o'r colegau yn ymgymryd â nifer o wahanol weithgareddau mewn perthynas â rhyngwladoli. Yn gyffredinol, gellir categoreiddio’r gweithgareddau hyn fel a ganlyn:

- Gweithio gyda busnesau rhyngwladol
- Datblygu partneriaethau rhyngwladol gyda cholegau tramor
- Cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil rhyngwladol


- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i staff a myfyrwyr trwy Taith (rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol Llywodraeth Cymru) a Chynllun Turing (rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol Llywodraeth y DU) ac aelodaeth WorldSkills
- Denu carfannau myfyrwyr rhyngwladol
- Myfyrio ar weithgareddau a gyflawnwyd i rannu dysgu, llywio arfer gorau ac arloesi.

### Data: Cymryd rhan mewn rhaglenni allgymorth byd-eang

Mae mapio'r cyfranogiad mewn cynlluniau sydd â 'rhagolygon byd-eang', megis cynlluniau Erasmus+, Turing a Taith Pathway 2014-2021 yn dangos bod y gweithgareddau hyn wedi dod yn fwy poblogaidd, gan ddangos ymrwymiad sefydliadau addysg bellach i sicrhau bod gan ddysgwyr agwedd wirioneddol fyd-eang, sydd yn ei dro yn sicrhau bod dinasyddion sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn cael eu meithrin trwy eu haddysg. Dengys y data fod cyfranogiad yn y cynlluniau hyn wedi cynyddu.

Cyflawnir nod llesiant Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang trwy gynlluniau megis Erasmus+, Cynllun Turing a Phrosiectau Taith Pathway. Parhaodd cynllun Erasmus hyd at 2020, pan gafodd ei ddirwyn i ben fel rhan o fargen Brexit. Fe'i disodlwyd wedyn gan gynllun Turing a Phrosiectau Taith Pathway – mae'r awydd i barhau i gymryd rhan yn y cynlluniau hyn er gwaethaf Brexit yn dangos gwir ymrwymiad i'r canlyniadau cadarnhaol y mae'r cynlluniau hyn yn eu meithrin. Roedd cynllun Erasmus+ yn cynnig teithiau cyfnewid i fyfyrwyr, cysylltiadau i ysgolion, a phrofiad gwaith. Mae Cynllun Turing yn darparu cyllid ar gyfer cyfleoedd rhyngwladol mewn addysg a hyfforddiant ar draws y byd. Mae Prosiectau Taith Pathway yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi pobl yng Nghymru i astudio, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio ledled y byd. Nod rhaglen Taith yw galluogi cyfranogwyr o Gymru i fynd ar deithiau cyfnewid dramor, gyda chyfranogwyr hefyd yn dod i astudio neu weithio yng Nghymru. Mae'r cynlluniau hyn yn hyrwyddo cyfnewid a chydweithio rhyngwladol, yn gwella sgiliau a phrofiadau cyfranogwyr, ac yn meithrin agwedd fyd-eang.

Fel y gwelir yn y graff isod, mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan ym mhrosiectau Erasmus+ wedi cynyddu'n raddol, o 0 yn 2014 i 876 yn 2020. Mae cynnydd enfawr yn y cyllid sydd ar gael yn cyd-fynd â'r canlyniad hwn. Yn 2014, nid oedd unrhyw arian ar gyfer y prosiect hwn, ond erbyn 2020 roedd €2,189,577 o gyllid ar gael. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, disodlwyd Erasmus+ gan gynllun Turing gan lywodraeth y DU, gyda phrosiectau Taith Pathway ar gael i ddysgwyr o Gymru. Er mai dim ond am gyfnod byr y mae hwn wedi bod yn gweithredu, mae'r niferoedd sydd wedi manteisio arno wedi bod yn fawr, gyda chyfanswm o 875 o fyfyrwyr ar y ddau gynllun yn 2021, sef y flwyddyn ddiweddaraf gyda data llawn ar gael).




Isod mae detholiad o Adroddiad Blynyddol Rhaglen Dramor 2022-23 Coleg Gwent, sy'n dangos amrywiaeth y gweithgarwch sydd wedi digwydd.

The following table summarises the range and value of the international visits undertaken in 2022-23.

| | Country | Campus | Subject | Funding | Learners | Staff |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Erasmus+ | Spain | BGLZ | Business | £39,728 | 20 | 6 |
| | Spain | BGLZ | ICT & Business | £22,490 | 11 | 3 |
| | Spain | BGLZ | Sport & Public Services | £36,934 | 17 | 3 |
| | Spain | CK | Business | £37,038 | 19 | 4 |
| | Italy | CK | Computing | £20,069 | 8 | 4 |
| | Italy | CK | Hospitality | £21,135 | 10 | 4 |
| | Mediterranean Cruise | CK | Performing Arts | £41,268 | 20 | 4 |
| | Spain | CK | Public Services | £20,625 | 20 | 4 |
| | Spain | CK | Sport | £37,185 | 20 | 4 |
| | Italy | CK | Travel & Tourism | £21,135 | 10 | 4 |
| | Germany | NPT | Childcare | £10,568 | 5 | 2 |
| | Italy | NPT | Health & Social Care | £13,110 | 5 | 4 |
| | Germany | NPT | Teaching Assistants | £8,963 | 4 | 2 |
| Turing | Nepal | BGLZ | Sport & Public Services | £60,000 | 15 | 3 |
| | South Korea | CK | Creative Arts | £47,272 | 15 | 4 |
| Taith | South Korea | TLZ | Photography & Art | £47,272 | 15 | 4 |
| | Tanzania | TLZ | A Level Sport | £37,772 | 15 | 4 |
| | India | Usk | Animal Care | £37,772 | 15 | 4 |
| | Turkey | BGLZ/CK | Staff Mobility | £3,100 | 0 | 4 |
| | Thailand | TLZ/CK | Staff Mobility | £8,020 | 0 | 4 |
| | Spain | All | Staff Mobility | £1,610 | 0 | 2 |
| | Tanzania | All | Staff Mobility | £2,420 | 0 | 2 |
| | | | | £575,487 | 244 | 79 |

Mae’n amlwg o’n hymchwil ac adroddiad a ysgrifennwyd gan Arad Research ym mis Mai 2021 (Rhyngwladoli yn y Secor AB yng Nghymru), fod ColegauCymru, fel y corff cynrychioliadol ar gyfer colegau AB yng Nghymru, yn chwarae rhan hanfodol wrth drefnu cyfleoedd rhyngwladol i staff a dysgwyr o fewn y sector AB.

### Effaith ar ddysgwyr

Trwy raglenni'r gorffennol a'r presennol mae dysgwyr AB wedi teithio ar draws y byd, i wledydd fel India, Canada, Sbaen, Ffrainc a Fietnam. Mae'r manteision i ddysgwyr yn eang. Trwy’r cyfweliadau gyda Phenaethiaid colegau a phresenoldeb yn y gweithdy rhyngwladol, fel rhan o Gynhadledd ColegauCymru, mae’r effeithiau allweddol ar ddysgwyr yn cynnwys:

- Ehangu dyheadau myfyrwyr ar gyfer y dyfodol
- Effaith gadarnhaol ar hyder dysgwyr
- Datblygu sgiliau cyfathrebu
- Twf personol yn ystod eu lleoliadau rhyngwladol
- Gwella sgiliau a gwybodaeth yn ymwneud â'u cyrsiau/maes sector dewisol
- Datblygu sgiliau meddal fel datrys problemau a dadansoddi
- Gwell dealltwriaeth ryngddiwylliannol

Mae canfyddiad hefyd ymhlith dysgwyr bod y cyfle am deithio rhyngwladol/lleoliad gwaith wedi cynyddu eu rhagolygon am swyddi yn y dyfodol, wedi gwella eu gallu i weithio gyda thasgau y mae llawer o gyfrifoldeb ynghlwm wrthynt, ac wedi datblygu'r gobaith o weithio dramor yn y dyfodol.

Mae’n werth nodi hefyd bod ColegauCymru a’r colegau partner wedi bod yn ceisio sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i’r ystod ehangaf o ddysgwyr a phobl ifanc, gan gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a nodweddion gwarchodedig.

Isod mae enghraifft gan ddysgwr Gofal Plant yng Ngholeg Gwent, yn trafod effaith taith i’r Almaen:

*“Roedd yn brofiad anhygoel a hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at sicrhau bod y cyfle hwn ar gael i mi. Mae wedi rhoi hwb aruthrol i fy hyder a hunan-barch, ac wedi gwneud i mi sylweddoli fy ngalluoedd yn llawnach. Roeddwn wrth fy modd yn archwilio’r syniadau a’r dulliau newydd o addysgu a dysgu a brofais yn ystod fy arhosiad ac yn teimlo ei fod wedi gwneud i mi fod â meddwl mwy agored a bod yn barod i dderbyn newid a gwahaniaeth diwylliannol. Dysgais beidio â ffurfio barn am unrhyw beth nes fy mod wedi ei brofi drosof fy hun ac i beidio byth â gwneud rhagdybiaethau cyn darganfod pethau drosof fy hun. Rwyf wedi dysgu bod yr Almaen yn wlad syfrdanol, ei glendid oedd y peth cyntaf i mi sylwi arno yn syth wrth ddod oddi ar yr awyren. Mae'r bobl yn dangos y parch mwyaf tuag at eu hamgylchedd ac eraill o'u cwmpas. Roeddwn wrth fy modd bob munud yr oeddwn yno. Diolch yn fawr iawn."*

Er bod y rhan fwyaf o’r colegau wedi cymryd rhan yn y rhaglenni Ewropeaidd blaenorol, mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant wedi bod yn ymwneud â chyflwyno teithiau rhyngwladol i staff a myfyrwyr ers 2021, pan ddaeth cyllid Cynllun Taith a Turing ar gael i golegau yng Nghymru. Mae’r Coleg yn cydnabod bod teithio rhyngwladol yn cyfrannu at

yr agenda gwerth cymdeithasol trwy hyrwyddo cyfnewid diwylliannol, amrywiaeth, ymgysylltu â'r gymuned, datblygu sgiliau, safbwyntiau byd-eang mewn addysg, rhwydweithio, ac arddangos Cymru ar y llwyfan byd-eang. Mae'r mentrau hyn yn helpu i adeiladu cymdeithas fwy cynhwysol, cysylltiedig ac sy'n ymwybodol yn gymdeithasol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae myfyrwyr wedi elwa ar nifer o ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys Gwlad Thai, Barcelona a Ffrainc. Mae'r ymweliadau hyn wedi rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn cyfnewid diwylliannol, gan feithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o wahanol safbwyntiau a ffyrdd o fyw.

### Profiadau'r staff ac effaith

Yn ystod ein cyfweliadau ymchwil dywedwyd wrthym hefyd am yr effaith y mae cyfleoedd teithio rhyngwladol yn ei chael ar staff. Mae staff wedi defnyddio ymweliadau rhyngwladol i:

- Ddatblygu cwricwla ymhellach
- Adolygu arfer gorau
- Hyrwyddo technegau rheoli a sicrhau ansawdd y coleg
- Cwmpasu cyfleoedd ar gyfer symudedd dysgwyr yn y dyfodol

Wrth ddychwelyd i'w sefydliadau cartref, mae staff AB wedi archwilio sut i roi eu dysgu ar waith ac mae hyn fel arfer wedi golygu gweithio ar draws nifer o wahanol adrannau o fewn y coleg AB.

### Enghraifft o symudedd staff

Ymwelodd aelod staff o Goleg Gŵyr â'r Universal College of Learning (UCOL) yn Seland Newydd, yn gynnar yn 2023. Y rheswm dros ddewis y sefydliad hwn oedd bod y coleg wedi derbyn DFQM (Marc Ansawdd sy'n Gyfeillgar i Ddyslecsia). Roedd yr aelod staff o Goleg Gŵyr yn gallu gweithio gyda'r tîm a oedd wedi ysgogi'r newid hwn a dysgodd am y broses yr oedd UCOL wedi'i rhoi ar waith i ennill yr achrediad a'r effeithiau cadarnhaol ar eu dysgwyr.

Yn ystod yr ymweliad cyfarfu hefyd ag amrywiaeth o adrannau gwahanol a llwyddodd i ymweld â phob un o'u pedwar campws. Mae hi'n ystyried mai canlyniadau'r ymweliad oedd cynnydd yn ei sgiliau a'i gwybodaeth, datblygu ei sgiliau digidol, a gwell dealltwriaeth o sut i greu amgylchedd dysgu cynhwysol.

Ers dychwelyd mae wedi rhannu ei dysgu gyda'r tîm niwroamrywiaeth ac maent wedi trafod sut y gallent ystyried mabwysiadu dull tebyg yng Ngholeg Gŵyr. Mae hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd gyda'r tîm ansawdd, i weld sut y gellir datblygu'r syniad ymhellach. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r ymweliad wedi'i ddosbarthu i dimau staff ehangach yng Ngholeg Gŵyr ac mae gweithgareddau ychwanegol wedi cynnwys:

- Cyflwyno gweithdy ar gyfer JISC
- Hyrwyddo gwers a ddysgwyd o ymweliad Seland Newydd yng nghynhadledd JISC ConnectMore
- Cyflwyniad ar gyfer Cymwysterau Cymru

O ran effaith ehangach yr ymweliad, mae'r aelod staff hefyd wedi cysylltu nifer o adrannau yng Ngholeg Gŵyr â'r adrannau cyfatebol yn UCOL ac mae cyfres o gyfarfodydd Teams llwyddiannus yn cysylltu'r timau Niwroamrywiaeth, Busnes a Gweinyddu, Cyfrifeg a Digidol wedi digwydd yn barod. Mae cyfarfodydd pellach ar y gweill rhwng yr adrannau Rhyngwladol a Cymru/Maori. Mae hi hefyd wedi cyflwyno sesiynau hyfforddi digidol i staff sydd wedi cynnwys arddangos meddalwedd y dysgodd amdani yn UCOL ac mae'n teimlo bod hyn nid yn unig wedi gwella ei galluoedd digidol ei hun, ond galluoedd cydweithwyr eraill hefyd.

Mae hi hefyd yn ystyried sut y gellir meithrin a datblygu perthynas tymor hwy ag UCOL a phartneriaid posibl eraill yn Seland Newydd.

### Partneriaethau

Amlygodd cyfweliadau â ColegauCymru a Phenaethiaid colegau AB fod llawer o golegau hefyd yn gweithio dramor trwy ystod o raglenni a gweithgareddau partneriaeth. Amlygwyd partneriaethau ar gyfer gweithgaredd masnachol gan sawl coleg fel rhywbeth hanfodol i'w strategaethau rhyngwladol cyffredinol, fodd bynnag, roedd gan y gweithgareddau masnachol hyn hefyd y potensial i gynhyrchu gwerth cymdeithasol i'r sefydliadau cartref a sefydliadau partner.

Ceir enghreifftiau o gydweithio a phartneriaethau strategol gydag ystod amrywiol o sefydliadau addysgol. Roedd enghreifftiau o'r gweithgareddau partneriaeth rhyngwladol a drafodwyd yn cynnwys:

- Datblygu is-gwmnïau tramor a mentrau ar y cyd
- Cyflwyno rhaglenni academaidd amser llawn
- Recriwtio dysgwyr i wneud cyrsiau Safon Uwch neu SSIE yng Nghymru
- Partneriaethau ymchwil
- Hyfforddiant TVET (e.e. sgiliau hedfan yn India)
- Aros mewn cartrefi, rhaglenni cymdeithasol rhyngwladol a thiwtora trwy ysgolion haf

Roedd canfyddiad bod partneriaeth ryngwladol wedi creu gwerth cymdeithasol drwy:

- Weithio ar y cyd
- Rhannu adnoddau
- Gwella gwybodaeth a sgiliau cyfunol
- Cyfoethogi tirwedd addysgol y sefydliadau/mudiadau dan sylw

Isod mae enghraifft o brosiect partneriaeth y mae Coleg y Cymoedd wedi bod yn rhan ohono, sy'n cysylltu dwy adran y Nod Llesiant hwn yn glir:

Mae Coleg y Cymoedd wedi cydweithio â gwneuthurwr Cymreig a nifer o sefydliadau rhyngwladol i ymchwilio i sut mae gweithgarwch dynol yn effeithio ar fywyd gwyllt ar draws y byd.

Mae'r prosiect monitro acwstig byd-eang i astudio bywyd gwyllt gan ddefnyddio seiniau o fyd natur wedi gweld Coleg y Cymoedd yn ymuno â'r gwneuthurwr lled-ddargludyddion, Newport Wafer Fab, a'r gweithiwr teledu a ffilm proffesiynol o Gymru, William Todd-Jones, ochr yn ochr â rhwydwaith o bartneriaid creadigol ac amgylcheddol - Cyswllt

Gwyllt, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB). Daeth y berthynas â Namibia o ganlyniad i gysylltiad hirsefydlog partner y prosiect a'r amgylcheddwr William Todd-Jones ag elusennau bywyd gwyllt yn Affrica.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gymharu lefelau bioamrywiaeth, yn yr achos hwn yr amrywiaeth o fywyd gwyllt, yng Nghymru ac Affrica, trwy fonitro synau anifeiliaid ac ecosystemau yn y rhanbarthau gan ddefnyddio recordwyr sain arbenigol o bell o'r enw 'Biophones'. Gwelodd Cyswllt Gwyllt, sy'n ymgynghoriaeth amgylcheddol, angen i ddatblygu dyfais monitro sain gadarn – Bioffôn – y gallai cadwraethwyr proffesiynol ac amatur ei defnyddio i recordio a dadansoddi synau o fyd natur. Y canlyniad yw dyfais sy'n werthfawr i wyddoniaeth ym maes eco-acwsteg ac arf a all helpu i ailgysylltu'r cyhoedd â byd natur. Yn y gwyllt, mae anifeiliaid yn defnyddio synau am nifer o resymau, o gyfathrebu a llywio i hela ac amddiffyn tiriogaethol. Gall dadansoddi'r synau hyn roi data cyfoethog i ecolegwyr a chadwraethwyr am yr amgylchedd a phoblogaethau anifeiliaid, gan eu helpu i ddeall ble mae rhai rhywogaethau'n byw, faint sydd yno a beth maen nhw'n ei wneud. Gall hyn helpu i ddatgelu newidiadau mewn ymddygiad a phoblogaeth yn ogystal ag amlygu effaith gweithgaredd dynol ar fywyd gwyllt lleol.

Fel rhan o'r prosiect peilot, ymunodd staff a dysgwyr o bob rhan o adrannau Peirianneg a Chreadigol Coleg y Cymoedd â Wild Connect, Newport Wafer Fab, CSA Catapult, a GX-Group i greu 35 o Bioffonau. Mae'r dyfeisiau wedi'u gosod o amgylch Cymru a Namibia, gan ei gwneud yn bosibl i fonitro a dadansoddi data Cymru gyfan, ynghyd ag asiantaethau bywyd gwyllt yn casglu'r data o'r defnydd a wnaed ohono yn Namibia.

Bydd y ddwy set o gofnodion yn cael eu dadansoddi i roi cipolwg ar y sefyllfa amgylcheddol ranbarthol a thystiolaeth o amrywiaeth ecosystemau rhwng y ddwy ardal. Bydd y canfyddiadau'n helpu i ddatgelu sut mae'r hinsoddau cyferbyniol, lefelau'r boblogaeth ddynol, a graddau datblygiad yng Nghymru a Namibia yn effeithio ar y byd naturiol cyfagos yn y ddau ranbarth.

Mae colegau AB Cymru hefyd yn cael eu cydnabod am eu gwaith rhyngwladol. Er enghraifft, anrhydeddwyd tîm rhyngwladol Grŵp Colegau NPTC â gwobr gan Ffederasiwn Colegau a Cholegau Polytechnig y Byd, yn y categori Datblygiad Proffesiynol Athrawon, yn nigwyddiad Cyngres y Byd a gynhaliwyd ym Montreal, Canada.

## Casgliad

Mae WBG7 yn amlygu cyfraniad colegau Addysg Bellach (AB) Cymru at y nod o 'Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.' Mae'r bennod yn pwysleisio ymrwymiad sefydliadau AB i gynaliadwyedd amgylcheddol, nodau sero net, gwelliannau i fioamrywiaeth, a rhagolygon rhyngwladol. Mae'n arddangos mentrau amrywiol, gan gynnwys datblygu sgiliau gwyrdd, mabwysiadu technolegau ynni adnewyddadwy a rhyngwladoli megis Cynllun Erasmus+ / Turing. Mae'r effaith gymdeithasol ar ddysgwyr yn cynnwys dyheadau ehangach a sgiliau uwch. Mae profiadau staff yn amlygu twf proffesiynol o ganlyniad i ymweliadau rhyngwladol. Edrychir hefyd ar bartneriaethau cydweithredol rhwng colegau AB Cymru a sefydliadau rhyngwladol, a amlygir gan brosiectau sy'n cyfrannu at ymchwil ecolegol ac ymgysylltiad y cyhoedd â byd natur. At ei gilydd, mae WBG7 yn tanlinellu rôl ganolog colegau AB at lunio Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

# Casgliadau ac argymhellion

Bydd y bennod hon yn amlinellu nifer o argymhellion yn sy'n seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil hwn, gan awgrymu sut y gall y sector Addysg Bellach (AB) yng Nghymru wreiddio a chofleidio gwerth cymdeithasol ymhellach, o ran ei ddealltwriaeth o'r cysyniad, sut y gellir ei gynhyrchu drwy sbardunau strategol y sector, y data y mae colegau unigol a ColegauCymru yn ei gasglu a'r data am effaith ansoddol sy'n cael ei gasglu.

## 1. Cysoni Gwerth Cymdeithasol â Newidiadau Deddfwriaethol trwy Gryfhau Eiriolaeth Allanol ar gyfer Gwerth Cymdeithasol mewn AB

Mae mentrau gwerth cymdeithasol yn cyd-fynd â newidiadau deddfwriaethol diweddar ar gyfer y sector AB yng Nghymru, yn enwedig yng ngoleuni'r newid i'r CTER a chenhadaeth economaidd ddiwygiedig Llywodraeth Cymru. Er mwyn i Lywodraeth Cymru gydnabod gwerth cymdeithasol AB, rhaid i'r ddau goleg, ColegauCymru a Llywodraeth Cymru fynd ati i ystyried cynnwys gwerth cymdeithasol wrth ddatblygu deddfwriaeth / polisi yn y dyfodol. Bydd ColegauCymru yn cymryd rhan ragweithiol mewn trafodaethau seneddol, ymgynghoriadau, a phrosesau deddfwriaethol sy'n ymwneud ag addysg bellach. Pan fydd yn gwneud hynny, dylai eiriol dros gynnwys ystyriaethau gwerth cymdeithasol yn benodol mewn fframweithiau a pholisïau perthnasol presennol a rhai sydd ar ddod, gan sicrhau bod yr ymrwymiad i lesiant cymdeithasol yn agwedd ganolog ar y dirwedd gyfreithiol a rheoleiddiol. Gellid gwneud yr argymhelliad hwn drwy'r ystyriaethau allweddol canlynol:

- **Integreiddio ag Amcanion Strategol y Comisiwn dros Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER):** Cysoni mentrau gwerth cymdeithasol yn y dyfodol ag amcanion strategol y CTER sydd newydd ei sefydlu. Dylai'r CTER, fel awdurdod rheoleiddio a chydgysylltu canolog ymgorffori gwerth cymdeithasol yn benodol fel dangosydd perfformiad allweddol. Gellir cyflawni'r integreiddio hwn trwy gysylltu metrigau'r fframwaith sy'n asesu effaith gymdeithasol ehangach gweithgareddau AB â nodau trosfwaol CTER.
- **Cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA):** Mae pwyslais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar feddwl hirdymor, cydweithredu, a llesiant yn cyd-fynd ag egwyddorion craidd gwerth cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn wedi dangos faint o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y sector AB yng Nghymru y gellir eu cysylltu'n uniongyrchol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly dylai ColegauCymru barhau i gryfhau'r cysylltiadau hyn o ran mesur gwerth cymdeithasol. Bydd sicrhau bod metrigau ac arferion gwerth cymdeithasol yn adlewyrchu'n benodol y nodau a'r dyheadau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn atgyfnerthu ymrwymiad y sector i gyfrannu at lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- **Gweithredu'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol:** Mae Deddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn darparu fframwaith ar gyfer gwella llesiant drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg, a

chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Trwy annog aelodau i ymgorffori ystyriaethau gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael, gellir ystyried yr effaith ehangach ar gymunedau, unigolion a'r amgylchedd wrth ddewis cyflenwyr a phartneriaid.

- **Addasiad i'r Genhadaeth Economaidd Ddiwygiedig:** Sicrhau bod mentrau gwerth cymdeithasol yn gyson ag amcanion cenhadaeth economaidd ddiwygiedig Llywodraeth Cymru. Wrth i'r dirwedd economaidd esblygu, gall y sector AB osod ei hun yn strategol drwy ddangos sut mae ei weithgareddau'n cyfrannu at y ffyniant economaidd a amlinellir yn y genhadaeth ddiwygiedig. Arddangos rôl y sector mewn datblygu sgiliau, arloesi, ac ymgysylltu â'r gymuned fel elfennau annatod o dwf economaidd.

## 2. Cryfhau Arweinyddiaeth ColegauCymru mewn Eiriolaeth Gwerth Cymdeithasol o fewn AB

O fewn y sector AB, gall ColegauCymru chwarae rhan hollbwysig wrth feithrin diwylliant o werth cymdeithasol ymhlith ei aelod sefydliadau. I gyflawni hyn, dylai ColegauCymru ganolbwyntio ar eiriolaeth fewnol drwy cydlynu arfer gorau a chryfhau cydweithio ar werth cymdeithasol. Gallai ColegauCymru sefydlu rhwydwaith cydweithredol neu hwyluso llwyfan i sefydliadau AB rannu arferion gorau wrth gynhyrchu gwerth cymdeithasol, lle gall sefydliadau ddysgu oddi wrth ei gilydd, cyfnewid syniadau, ac ailadrodd mentrau llwyddiannus. Gellir annog mentrau cydweithredol, a fydd yn cynyddu'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir gan y sector. Gellir gwneud hyn yn ymarferol mewn amrywiol gyd-destunau gwahanol, gyda rhai syniadau yn cynnwys:

- **Rhannu gwybodaeth trwy rwydwaith 'cymuned ymarfer' gwerth cymdeithasol -** Gallai gweithdai wedi'u hwyluso gan GolegauCymru fod yn llwyfan ar gyfer rhannu arferion gorau, straeon llwyddiant, adnoddau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran creu gwerth cymdeithasol yn y sector AB. Gellid defnyddio'r fforwm hwn i annog mentrau cydweithredol a chreu cyfleoedd i sefydliadau ddysgu oddi wrth ei gilydd, atgynhyrchu modelau llwyddiannus, meithrin gallu sefydliadol i ddeall, mesur ac adrodd ar werth cymdeithasol, a thrwy wneud hynny ar y cyd ymhelaethu ar effaith gadarnhaol eu gweithgareddau. Byddai cynnal y sesiynau o bell yn golygu bod y wybodaeth ar gael yn hawdd i gynulleidfa amrywiol – gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol eraill megis cyrff sector cyhoeddus eraill, mentrau preifat, a sefydliadau trydydd sector sy'n dymuno integreiddio metrigau ac arferion gwerth cymdeithasol yn eu cynllunio strategol.
- **Codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrch Gyfathrebu** – Gallai ColegauCymru gydlynu a gweithredu ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu i amlygu cyflawniadau a mentrau gwerth cymdeithasol penodol. Drwy feithrin partneriaethau â chyfryngau lleol a chenedlaethol a defnyddio amrywiol sianeli cyfathrebu, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, a datganiadau i'r wasg, gallai'r sector gyrraedd cynulleidfa eang drwy bwysleisio'r effaith gadarnhaol ar ddysgwyr, cymunedau, a'r amgylchedd, gan atgyfnerthu ymrwymiad y sector AB i les

cymdeithasol. Gellid gwneud hyn ar y cyd â'r adroddiad gwerth cymdeithasol (gweler yr argymhelliad nesaf)

### 4. Sefydlu Dull Ffurfiol o Adrodd ar Werth Cymdeithasol

Mae'r ymchwil hwn wedi dangos, er bod dealltwriaeth eang o werth cymdeithasol o fewn y sector AB yng Nghymru, nid yw'n derm sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth drafod neu gynllunio effaith ehangach ei weithgareddau presennol ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r sector yn darparu amrywiaeth eang o weithgarwch gwerth cymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Yn y gweithdy ar-lein a gynhaliwyd gyda'r Penaethiaid AB buom yn archwilio ystyr gwerth cymdeithasol i'r sector AB yng Nghymru a nododd un o'r Penaethiaid:

> *"Mae gwerth cymdeithasol wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud."*

Mae'n ymddangos bod ein canfyddiad yn cyd-fynd â'r farn hon. Ac eto, yn rhannol oherwydd hyn, mae'r darn hwn o ymchwil wedi bod yn heriol iawn i'w wneud. Mae pob un o'r sefydliadau AB, ynghyd â ColegauCymru, yn ymgymryd â chymaint o weithgarwch y gellid ei ystyried fel rhywbeth trwy lens gwerth cymdeithasol. Mewn gwirionedd, mae gan bob un o'r colegau ddigon o wybodaeth i ysgrifennu eu hadroddiad gwerth cymdeithasol annibynnol eu hunain. O'r herwydd, bu'n anodd cyfuno'r wybodaeth gan 13 o sefydliadau i un adroddiad cynrychioliadol.

Ar yr un pryd, er inni gael ein boddi gan wybodaeth ansoddol i'w chynnwys yn ein hadroddiad, mae dod o hyd i'r data meintiol o fewn y fframwaith wedi bod yn her. Roedd rhai colegau yn gallu darparu data o ansawdd da ar rai mesurau ond nid oedd eraill yn gallu gwneud hynny, felly roedd casglu data cynhwysfawr ar draws yr holl sefydliadau AB i ddarparu cymhariaeth ystyrlon yn heriol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd sawl rheswm, sy'n aml yn ddealladwy:

- nid yw'r math hwn o werthusiad wedi'i gynnal o'r blaen, ac felly ni fyddai gan y colegau unrhyw reswm i goladu'r math hwn o ddata fel arfer. Yn aml fe'i cedwir gan wahanol unigolion, ac felly roedd ei goladu yn her logistaidd;
- Mae amserlen y darn hwn o waith wedi cywasgu felly cyfnod cymharol fyr a gafodd colegau i goladu'r data;
- Po fwyaf y gofynnir am ddata sefydliadau, ar draws nifer eang o fetrigau, y mwyaf o her fydd yna wrth gasglu data cynhwysfawr.

Er mwyn ymdrin â'r heriau hyn, pe bai ColegauCymru am ailadrodd y darn hwn o waith yn y dyfodol, rydym yn awgrymu proses symlach o gasglu a mesur data. Bydd hyn yn ei gwneud yn fwy hygyrch a safonol, ac yn adlewyrchu'r canlyniadau allweddol mewn addysg bellach sy'n cyd-fynd â nodau llesiant cymdeithasol.

1. **Nodi Canlyniadau a Dangosyddion Allweddol:** Mae'r cam cyntaf yn ymwneud â chydweithio rhwng y colegau a ColegauCymru i adnabod dangosyddion allweddol

sy’n hanfodol ar gyfer mesur effaith addysg bellach ar les cymdeithasol. Dylid dewis y dangosyddion hyn, y gellid eu dewis o’r fframwaith a ddatblygwyd fel rhan o’r adroddiad hwn, yn ofalus i grynhoi agweddau amrywiol ar draws y Nodau Llesiant megis cyflogadwyedd, cadwyni cyflenwi lleol, ymgysylltu â’r gymuned ac ati. Unwaith y bydd dangosyddion allweddol wedi’u nodi, dylid sefydlu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) penodol ar gyfer pob coleg. Trwy ganolbwyntio ar y DPA hyn, gall y corff diwydiant hwyluso dull systematig o gasglu data, gan sicrhau bod pob coleg yn adrodd ar yr un set o fetrigau critigol.

2. **Olrhain Cynnydd:** Dylai’r fframwaith wedi’i ffocysu hwn ei gwneud yn bosibl i olrhain cynnydd dros amser. Mae'r DPA hyn yn feincnod mesuradwy sy'n caniatáu ar gyfer gwerthusiad blynyddol cyson. Mae hyn nid yn unig yn caniatáu ar gyfer asesiad deinamig o effaith addysg bellach ond mae hefyd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i golegau ar eu perfformiad eu hunain o gymharu â cholegau eraill. Bydd adrodd a dadansoddi rheolaidd yn gwella atebolrwydd ac yn annog gwelliant parhaus. Mae cyfle clir i bob sefydliad edrych ar y fframwaith gwerth cymdeithasol yn erbyn ei holl weithgareddau cyfredol a defnyddio'r dull wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol, gan gynnwys prosiectau cyfalaf.

3. **Astudiaethau Achos Ansoddol Parhaus:** Er bod data meintiol yn darparu metrigau gwerthfawr, mae cynnwys astudiaethau achos ansoddol yn hanfodol o hyd. Yn wir, ni chynghorir cael pwyslais rhy drwm ar fetrigau meintiol, gan fod yr astudiaethau achos ansoddol hyn yn cynnig dealltwriaeth gynnil o effaith addysg bellach ar unigolion a chymunedau, gan ddarparu cyd-destun a dyfnder i’r canfyddiadau meintiol. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu gofyn i golegau ddewis o nifer penodol o 'effeithiau' ar gyfer pob astudiaeth achos, er mwyn sicrhau bod mwy o gysondeb wrth adrodd ar effaith ar draws colegau ac fel sector cyfan. Er enghraifft, os gofynnir i'r sector am enghreifftiau o sut y gall gyflawni yn erbyn amcan penodol, byddai'n hawdd tynnu sylw at yr enghreifftiau allweddol.

4. **Adroddiadau Gwerth Cymdeithasol Blynyddol:** Dylai ColegauCymru geisio annog colegau i ddatblygu adroddiadau blynyddol ar werth cymdeithasol sy'n amlinellu cyflawniadau unigol, heriau, a nodau'r sefydliad yn y dyfodol o ran gwerth cymdeithasol. Dylai'r adroddiadau hyn fod yn hygyrch i'r cyhoedd, llunwyr polisi, a rhanddeiliaid y diwydiant, a darparu cyfrif tryloyw o gyfraniadau cymdeithasol y sector. Gellir cyflawni hyn trwy ddarparu arweiniad ar y fframwaith adrodd, cynnig templedi, a hwyluso gweithdai neu sesiynau hyfforddi ar adrodd effeithiol ar werth cymdeithasol. Mae'r dull hwn yn cydnabod amrywiaeth y gweithgareddau ar draws sefydliadau ac mae hefyd yn grymuso pob coleg i arddangos ei gyfraniadau unigryw at werth cymdeithasol, gan sicrhau eu bod yn meddwl am werth cymdeithasol yn fwy penodol o ran mesur ac adrodd.

Mae’r adroddiad hwn yn hyrwyddo trwytho gwerth cymdeithasol i mewn i union ffabrig sector AB Cymru. Trwy gysoni’r mentrau hyn â sbardunau strategol, meithrin cydweithredu, a mabwysiadu dull ffurfiol o adrodd, mae gan y sector gyfle i ddyrchafu ei gyfraniadau cymdeithasol i uchelfannau newydd. Gan gydnabod bod gwerth

cymdeithasol eisoes wedi'i wreiddio yn ethos sefydliadau AB, mae'r adroddiad hwn yn galw am ymdrech gydlynus i ehangu'r ymdrechion clodwiw hyn. Wrth wneud hynny, mae'r sector AB nid yn unig yn gwneud y mwyaf o'i effaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ond hefyd yn gosod cynsail trawsnewidiol, gan ddangos sut y gall addysg fod yn sbardun ar gyfer newid cadarnhaol yng Nghymru. Nid bodloni gofynion deddfwriaethol yn unig a wneir ond creu etifeddiaeth barhaus, lle mae pob dysgwr, pob cymuned, a'r amgylchedd yn elwa o ymrwymiad rhyfeddol AB Cymru i lesiant cymdeithasol.

ColegauCymru
CollegesWales

www.colegau.cymru
029 2052 2500
helo@colegaucymru.ac.uk
ColegauCymru